



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Iau 15 Tachwedd 2001

Thursday 15 November 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities
- 14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd
Questions to the Minister for Environment
- 28 Datganiad ar Gymdeithas y Plant
Statement on the Children's Society
- 36 Datganiad ar Newid Strwythurol yn yr NHS
Statement on Structural Change in the NHS
- 64 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 66 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion
Composite Motion: Approval of Orders
- 69 Dadl Fer: Sgrinio Iechyd yn y Gweithle—Ffordd o Achub Bywydau
Short Debate: Workplace Health Screening—A Life Saver

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.05 a.m. gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities

Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf
Communities First Programme

Q1 Alison Halford: Will the Minister make a statement on how Delyn's selected communities will benefit from the Communities First programme? (OAQ13982)

C1 Alison Halford: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y cymunedau a ddetholwyd yn Nelyn yn elwa ar raglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ13982)

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I want all eligible communities across Wales to benefit from the programme, including those in Delyn. The programme is designed to empower communities to take responsibility for their own regeneration.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Yr wyf eisiau i bob cymuned gymwys ledled Cymru elwa o'r rhaglen, yn cynnwys y rheini yn Nelyn. Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i roi'r awdurdod i gymunedau i gymryd cyfrifoldeb am eu hadfywiad eu hunain.

Communities First is a new way of regenerating our most deprived communities. Each community is required to set up a Communities First partnership to drive change, with strong representation from local people.

Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ffordd newydd o adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n ofynnol i bob cymuned sefydlu partneriaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf i greu newid, gyda chynrychiolaeth gref o bobl leol.

Alison Halford: I am sure that you agree that we must ensure that money is spent on outcomes in our communities and not on costly local bureaucracy and administration. The last thing that we want to do is to fund local authority staff. In order to ensure that Delyn's communities receive the maximum benefit from this excellent initiative, what steps have been taken to ensure that the bidding process is not too time-consuming or costly?

Alison Halford: Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod yn rhaid inni sicrhau y caiff yr arian ei wario ar ganlyniadau yn ein cymunedau ac nid ar fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth leol ddud. Y peth olaf yr ydym eisiau ei wneud yw ariannu staff awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau bod cymunedau Delyn yn derbyn y budd mwyaf posibl o'r fenter ardderchog hon, pa gamau sydd wedi eu cymryd i sicrhau nad yw'r broses gynigion yn cymryd gormod o amser neu'n rhy gostus?

Edwina Hart: We hope that we have designed a simple bidding process that is not time-consuming, but I am always mindful that there must not be unnecessary bureaucracy. Small community organisations and those in partnership with other community organisations would find a bureaucratic process onerous. We would not get to deal with some of the outcomes or

Edwina Hart: Gobeithio ein bod wedi cynllunio proses gynigion syml nad yw'n cymryd gormod o amser, ond yr wyf bob amser yn ymwybodol na ddylid cael biwrocratiaeth ddiangen. Byddai proses fiwrocrataidd yn feichus i sefydliadau bach yn y gymuned a'r rheini mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol eraill. Ni fyddem yn llwyddo i ymdrin â rhai o'r canlyniadau neu'r

events. I will review all current measures in case I can further simplify the process for future applications.

Janet Davies: How many communities qualifying for Communities First have set up partnerships?

Edwina Hart: I do not have that information available today, but I will report to the Local Government and Housing Committee should I have it by next week.

Peter Rogers: How will you ensure full accountability for funds allocated under the programme, especially when they are used in conjunction with other sources of funding in communities such as Delyn?

Edwina Hart: There are, obviously, processes to be followed in dealing with public money. However, the Communities First programme must also contain an element of flexibility, as some in the voluntary sector would not welcome the unnecessary bureaucracy that is sometimes attached to monitoring the processing of funds through the system. We ensure that funds are well used, but we must also realise that people sometimes start a project that does not take off. I must accept such losses if I am to be genuine about allowing communities to empower themselves.

digwyddiadau. Byddaf yn adolygu pob mesur presennol rhag ofn y gallaf symleiddio'r broses ymhellach ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Janet Davies: Sawl cymuned sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf sydd wedi sefydlu partneriaethau?

Edwina Hart: Nid yw'r wybodaeth honno gennyf heddiw, ond byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai os bydd gennyf erbyn yr wythnos nesaf.

Peter Rogers: Sut fyddwch yn sicrhau atebolrwydd llawn ar gyfer yr arian a ddyrennir o dan y rhaglen, yn enwedig pan gânt eu defnyddio mewn cysylltiad â ffynonellau eraill o arian mewn cymunedau megis Delyn?

Edwina Hart: Yn amlwg, mae prosesau i'w dilyn wrth ddelio ag arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf hefyd gynnwys elfen o hyblygrwydd, gan na fyddai rhai yn y sector gwirfoddol yn croesawu'r fiwrocratiaeth ddiangen sydd weithiau ynghlwm â monitro'r gwaith o brosesu'r arian drwy'r system. Sicrhawn fod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n dda, ond rhaid inni hefyd sylweddoli bod pobl weithiau'n dechrau prosiect nad yw'n llwyddo. Mae'n rhaid imi dderbyn colledion o'r fath os wyf o ddifrif ynglŷn â chaniatáu i gymunedau gael awdurdod eu hunain.

Ethol Meiri yn Uniongyrchol Directly Electing Mayors

Q2 Richard Edwards: Will the Minister provide an update on those local authorities in Wales considering the post of a directly elected mayor? (OAQ13942)

Edwina Hart: In accordance with the Local Government Act 2000, all local authorities are consulting with their communities on the four available options for new political management structures, which includes the option of an elected mayor.

Richard Edwards: Are you aware of concern that a directly elected mayor could prove to be an elected autocrat? However, in

C2 Richard Edwards: A all y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch sefyllfa'r awdurdodau lleol hynny yng Nghymru sy'n ystyried sefydlu swydd maer a etholir yn uniongyrchol? (OAQ13942)

Edwina Hart: Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae pob awdurdod lleol yn ymgynghori â'u cymunedau ar y pedwar opsiwn sydd ar gael ar gyfer strwythurau rheoli gwleidyddol newydd, sy'n cynnwys opsiwn maer etholedig.

Richard Edwards: A ydych yn ymwybodol o bryder y gallai maer a etholir yn uniongyrchol fod yn unben etholedig? Fodd

Pembrokeshire, many feel that that would be preferable to the unelected autocracy that currently exists by default.

Edwina Hart: Local authority members are elected through the ballot box, and are merged into the administration that will control the local authority area. The legislation provides sufficient checks and balances for the scheme's operation should people opt for a mayor, but it is also important that people know which option they prefer.

Janet Ryder: Edwina, you will surely agree that the role of scrutiny committees is vital in the emerging structures. Those committees hold the ruling group, the cabinet or elected mayors, to account for their actions. How would you react if a council leader admitted that the scrutiny committees in his council were not functioning properly? Would you intervene?

Edwina Hart: Across Wales, there has been concern about the role of scrutiny committees and how they will work. Local authority leaders in particular want to ensure that more emphasis is placed on scrutiny, and that members are fully aware of their scrutiny duty. If there are concerns about statements made by any council leader regarding the role of scrutiny committees, I would be interested to see them substantiated.

William Graham: One appreciates that under the present law all local authorities must consult with their inhabitants. Will you collate and publish the results of these consultations to allow a full evaluation of public opinion in Wales?

Edwina Hart: I know that this is of particular concern to you, and as I have previously indicated to you, I am considering the results of the consultation exercises which are taking place across the 22 local authorities in Wales. I have already received correspondence from the citizens of Wales on these exercises. I must be sure, before I agree any new structure, that proper consultation has been undertaken. I will try to collate some form of information for the Local

bynag, yn Sir Benfro, teimla llawer y byddai hynny yn well na'r awtocratiaeth anetholedig sydd yn bodoli ar hyn o bryd yn absenoldeb unrhyw beth arall.

Edwina Hart: Etholir aelodau awdurdodau lleol drwy'r blwch pleidleisio, ac fe'u cyfunir yn y weinyddiaeth a fydd yn rheoli ardal yr awdurdod lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu rhwystrau a gwrthbwsiau digonol ar gyfer gweithredu'r cynllun pe byddai pobl yn dewis maer, ond mae hefyd yn bwysig bod pobl yn gwybod pa opsiwn sy'n well ganddynt.

Janet Ryder: Edwina, mae'n siŵr y cytunwch fod rôl y pwyllgorau craffu yn hanfodol yn y sicrhau bod y grŵp rheoli, y cabinet neu'r meiri etholedig, yn atebol am eu gweithredoedd. Sut fydddech chi'n ymateb pe byddai arweinydd cyngor yn cyfaddef nad oedd y pwyllgorau craffu yn ei gyngor yn gweithredu'n gywir? A fydddech yn ymyrryd?

Edwina Hart: Ledled Cymru, bu pryder ynglŷn â rôl pwyllgorau craffu a sut y byddant yn gweithio. Mae arweinwyr awdurdodau lleol yn enwedig eisiau sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar graffu, a bod yr aelodau yn gwbl ymwybodol o'u dyletswydd yn hynny o beth. Os oes pryderon ynglŷn a datganiadau a wneir gan unrhyw arweinydd cyngor o ran rôl pwyllgorau craffu, byddai gennyf ddiddordeb yn eu gweld yn cael eu cadarnhau.

William Graham: Yr ydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol, o dan y gyfraith bresennol, ymgynghori â'i drigolion. A fyddwch yn coladu a chyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn i alluogi gwerthusiad llawn o farn gyhoeddus yng Nghymru?

Edwina Hart: Gwn fod hyn o bryder penodol i chi, ac fel yr wyf wedi dweud wrthyf yn flaenorol, yr wyf yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori sydd yn digwydd yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yr wyf eisoes wedi derbyn gohebiaeth gan bobl Cymru ar yr ymgynghori. Mae'n rhaid i mi fod yn siŵr, cyn i mi gytuno ar unrhyw strwythur newydd, bod ymgynghori cywir wedi digwydd. Os credwch y bydd o ddefnydd ceisiaf goladu rhyw fath o

Government and Housing Committee on the course of this process if you think that it will be helpful.

wybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ddatblygiad y broses hon.

Mynd i'r Afael â Hiliaeth yng Nghymru Combating Racism in Wales

Q3 Helen Mary Jones: Will the Minister provide an update of the Assembly Government's efforts to combat racism in Wales? (OAQ13899)

C3 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â hiliaeth yng Nghymru? (OAQ13899)

Edwina Hart: I recently met with the Race Equality Councils in Wales to discuss issues facing minority ethnic people at grass-roots level. Several options for joint working were discussed and officials are investigating the possibility of seconding staff to the Race Equality Councils to promote the equality agenda. The First Minister and I also met with religious leaders and representatives of minority ethnic communities to hear about their concerns and experiences following the events of 11 September. Cabinet Ministers are now actively pursuing those concerns and officials have written to the four police forces highlighting the need for the Assembly to be kept fully briefed on the number and nature of racist incidents. As you know, Dr Ali has already agreed with the Committee on Equality of Opportunity that the Commission for Racial Equality will keep us apprised of incidents that are reported to it. I have also met with Muslim women to hear about the difficulties they have experienced in accessing services and appropriate support. I have asked officials to maintain this dialogue to consider ways in which the Assembly can directly address their concerns.

Edwina Hart: Yn ddiweddar cyfarfûm â'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru i drafod materion sy'n wynebu pobl o leiafrifoedd ethnig ar lefel sylfaenol. Trafodwyd sawl opsiwn ar gyfer cydweithio ac mae swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o secondio staff i'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol i hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb. Yn ogystal, cyfarfu Prif Weinidog Cymru a minnau ag arweinwyr crefyddol a chynrychiolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i wrando ar eu pryderon a'u profiadau yn dilyn digwyddiadau 11 Medi. Mae Gweinidogion y Cabinet bellach yn mynd ar drywydd y pryderon hynny ac mae swyddogion wedi ysgrifennu at bedwar awdurdod yr heddlu yn pwysleisio'r angen i'r Cynulliad gael gwybodaeth lawn ar y nifer o ddigwyddiadau hiliol a'u natur. Fel y gwyddoch, mae Dr Ali eisoes wedi cytuno â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi gwybod inni am ddigwyddiadau y caiff wybodaeth amdanynt. Yr wyf hefyd wedi cyfarfod â menywod Moslemaidd i wrando ar yr anawsterau y maent wedi eu profi wrth gael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth briodol. Yr wyf wedi gofyn i swyddogion gynnal y cyswllt hwn i ystyried ffyrdd y gall y Cynulliad fynd i'r afael â'u pryderon yn uniongyrchol.

Helen Mary Jones: Do you share my concern about the potential ill-effect on race relations in Wales that may be caused by the Home Office proposals to intern terrorist suspects without trial? Was the Government of Wales consulted at an early stage on this matter, and will you now consult with the Muslim community in Wales about this, and make urgent representations to the Home Office following that consultation?

Helen Mary Jones: A ydych yn rhannu fy mhryder ynglŷn â'r sgîl effeithiau posibl ar gydberthynas hiliol yng Nghymru y gellir eu hachosi gan gynigion y Swyddfa Gartref i gaethiwo'r rhai a amheuir eu bod yn derfysgwyr heb eu dwyn i brawf? A ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y mater hwn, ac a fyddwch yn awr yn ymgynghori â'r gymuned Foslemaidd yng Nghymru ynglŷn â hyn, a gwneud sylwadau ar frys i'r Swyddfa Gartref yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.

Edwina Hart: I have arranged for a paper on the implications of the Home Office proposals, along with a whole range of asylum and immigration matters, to be discussed by the Committee on Equality of Opportunity. I will take cognisance of the discussions there and, if necessary, make appropriate representations.

David Melding: Do you agree that we must be vigilant in ensuring that racist graffiti is removed promptly by local authorities because it causes great offence to everyone, but is of particular menace to minority ethnic groups?

Edwina Hart: I could not agree more. If you wish I will raise this matter with Sir Harry Jones from the Welsh Local Government Association next week at one of my regular meetings with him, to ask if local authorities will take urgent action on what has happened since 11 September.

Edwina Hart: Yr wyf wedi trefnu i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal drafod papur ar oblygiadau cynigion y Swyddfa Gartref, ynghyd ag ystod eang o faterion lloches a mewnfudo. Byddaf yn ystyried y trafodaethau yno ac, os yw'n angenrheidiol, gwneud sylwadau priodol.

David Melding: A gytunwch fod yn rhaid inni fod yn wylidwrus wrth sicrhau y caiff graffiti hiliol ei ddileu ar unwaith gan awdurdodau lleol gan ei fod yn peri sarhad mawr i bawb, ac yn fygythiad penodol i grwpiau lleiafrifoedd ethnig?

Edwina Hart: Ni allwn gytuno mwy. Pe dymunwch, codaf y mater hwn gyda Syr Harry Jones o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos nesaf mewn un o'm cyfarfodydd rheolaidd ag ef, i ofyn a fydd awdurdodau lleol yn cymryd camau brys ar yr hyn sydd wedi digwydd ers 11 Medi.

Pleidleisio Drwy'r Post mewn Etholiadau Llywodraeth Lleol Postal Voting in Local Government Elections

Q4 Geraint Davies: Does the Minister plan to review the use of postal voting in local government elections? (OAQ13891)

Edwina Hart: The Department of Transport, Local Government and the Regions in Whitehall is responsible for the conduct of local government elections.

Geraint Davies: Do you agree that electors who choose to vote by post deserve the same democratic right as electors who go to the polling booth? Are you concerned, therefore, that vulnerable voters could be exploited by candidates, or their supporters, wishing to 'assist' them with their vote? Are you also concerned that some candidates are being refused access to institutions such as nursing or residential homes by workers who may not agree with their political viewpoint?

Edwina Hart: No such evidence has been brought to my attention. If I receive any evidence I will pass it on to the appropriate

C4 Geraint Davies: A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu'r defnydd a wneir o bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol? (OAQ13891)

Edwina Hart: Yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn Whitehall sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau llywodraeth leol.

Geraint Davies: A gytunwch fod etholwyr sy'n dewis pleidleisio drwy'r post yn haeddu'r un hawl ddemocrataidd ag etholwyr sy'n mynd i'r blwch pleidleisio? A ydych yn pryderu, felly, y gallai pleidleiswyr diamddiffyn gael eu hecsploitiu gan ymgeiswyr, neu eu cefnogwyr, sydd eisiau eu 'cynorthwyo' gyda'u pleidlais? A ydych hefyd yn pryderu y gwrthodir rhai ymgeiswyr rhag ymweld â sefydliadau megis cartrefi nyrsio neu gartrefi preswyl gan weithwyr na fydd efallai yn cytuno â'u safbwynt gwleidyddol?

Edwina Hart: Nid oes tystiolaeth o'r fath wedi ei chyflwyno imi. Os derbynaf unrhyw dystiolaeth byddaf yn ei throsglwyddo i'r

Whitehall department.

adran briodol yn Whitehall.

Mick Bates: I am sure that we would all welcome an investigation into that issue. However, it seems to me that we need to demonstrate to the electorate that we value their vote. Do you agree that any review should urgently examine the implementation of proportional systems into local government elections?

Mick Bates: Yr wyf yn siŵr y byddem oll yn croesawu ymchwiliad i'r mater hwnnw. Fodd bynnag, ymddengys i mi fod yn rhaid inni ddangos i'r etholwyr ein bod yn gwerthfawrogi eu pleidlais. A gytunwch y dylai unrhyw adolygiad archwilio ar fyrder defnyddio systemau cyfrannol yn ystod etholiadau llywodraeth leol?

Edwina Hart: That will be a matter for central Government.

Edwina Hart: Mater i Lywodraeth ganolog fydd hynny.

Nick Bourne: While I am sympathetic to Geraint Davies's point, will you encourage the Whitehall department to consider alternative ways of voting? Low turnouts cause concern across the political divide. I think that much of this is to do with changing lifestyles. If you could encourage, for example, internet voting, postal voting, or telephone voting, that would be most useful.

Nick Bourne: Tra yr wyf yn cydymdeimlo â phwynt Geraint Davies, a wnewch annog yr adran yn Whitehall i ystyried ffyrdd amgen o bleidleisio? Mae'r nifer isel sy'n pleidleisio yn peri pryder ar draws y rhaniad gwleidyddol. Credaf fod llawer o hyn yn ymwneud â ffyrdd o fyw sy'n newid. Pe byddech, er enghraifft, yn gallu annog pleidleisio dros y rhyngryd, drwy'r post, neu dros y ffôn, byddai hynny yn ddefnyddiol iawn.

9:15 a.m.

Edwina Hart: Several innovative methods have been considered. These include electronic and postal voting and weekend elections. There have been several pilot schemes. Evidence arising from these issues, particularly turnout, is currently being considered. I would be happy to send you any details that I have on those issues. I want to encourage any work to increase electorate participation in elections.

Edwina Hart: Mae sawl dull arloesol wedi eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys pleidleisio electronig a thrwy'r post, a chynnal etholiadau ar y penwythnos. Cafwyd sawl cynllun peilot. Mae tystiolaeth yn deillio o'r materion hyn, yn enwedig nifer y bobl sy'n pleidleisio, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Byddwn yn fwy na pharod i anfon unrhyw fanylion atoch sydd gennyf ar y materion hynny. Hoffwn annog unrhyw waith i gynyddu cyfranogiad yr etholwyr mewn etholiadau.

Cyfle Cyfartal i Weithwyr y Cynulliad Equality of Opportunity for Assembly Employees

Q5 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on what initiatives she is pursuing to ensure equality of opportunity for Assembly employees in South Wales Central? (OAQ13976)

C5 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar ba fentrau sydd ar y gweill ganddi er mwyn sicrhau y ceir cyfle cyfartal i weithwyr y Cynulliad yng Nghanol De Cymru? (OAQ13976)

Edwina Hart: The National Assembly is, or strives to be, an equal opportunities employer. It is our policy to promote and integrate equal opportunities into all aspects of our business, including employment

Edwina Hart: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyflogwr cyfle cyfartal, neu yn anelu at hynny. Ein polisi yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal i bob agwedd ar ein busnes, gan gynnwys arferion cyflogaeth

practices and conditions of service for Assembly staff. Initiatives have included pay reform, developing a childcare strategy, diversity awareness training for all staff and a work choices initiative.

Jonathan Morgan: Will you join me in welcoming the news that the National Assembly for Wales has appointed its first senior civil servant from a minority ethnic background? Do you agree that we need to ensure that the Assembly continues to reflect the rich diversity of Wales?

Edwina Hart: I wholeheartedly support your comments, Jonathan. There is cross-party support for these initiatives, and it is important that we are all on board regarding this issue. I welcome your comments.

Pauline Jarman: Will you consider adopting an official-Member protocol to ensure that all Assembly staff, whether civil servants or those who work for political parties, can enjoy the equal protection of employment legislation, and not become easy targets for politicians who have nothing better to do with their time?

Edwina Hart: Civil servant employment practices are a matter for me. Employment practices relating to political staff are a matter for the parties concerned and individual Assembly Members. However, if Plaid Cymru—The Party of Wales believes that it would be useful for me to consider these issues across a wider sphere, I would be delighted to take a formal representation.

The Deputy Presiding Officer: Question 6 (OAQ13989) has been withdrawn.

ac amodau gwasanaeth ar gyfer staff y Cynulliad. Mae'r mentrau wedi cynnwys diwygio cyflog, datblygu strategaeth gofal plant, hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ar gyfer pob aelod o staff a menter dewisiadau gwaith.

Jonathan Morgan: A ymunwch â mi wrth groesawu'r newyddion fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi ei uwch was sifil cyntaf o gefndir lleiafrifol ethnig? A gytunwch fod angen inni sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth cyfoethog Cymru.

Edwina Hart: Cefnogaf eich sylwadau yn galonogol, Jonathan. Mae cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer y mentrau hyn, ac mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cytuno ar y mater hwn. Croesawaf eich sylwadau.

Paul Jarman: A fyddwch yn ystyried mabwysiadu protocol Aelodau a swyddogion i sicrhau bod holl Aelodau'r Cynulliad, boed yn weision sifil neu'r rhai sy'n gweithio i bleidiau gwleidyddol, yn gallu mwynhau yr un diogelwch o ran deddfwriaeth cyflogaeth, heb ddod yn dargedau hawdd i wleidyddion heb unrhyw beth gwell i'w wneud gyda'u hamser?

Edwina Hart: Mater i mi yw arferion cyflogaeth gweision sifil. Mae arferion cyflogaeth sy'n gysylltiedig â staff gwleidyddol yn fater i'r pleidiau dan sylw ac Aelodau unigol o'r Cynulliad. Fodd bynnag, os yw Plaid Cymru—The Party of Wales o'r farn y byddai'n ddefnyddiol imi ystyried y materion hyn ar draws cylch ehangach, byddwn yn fwy na pharod i wrando ar sylwadau ffurfiol.

Y Dirprwy Lywydd: Mae cwestiwn 6 (OAQ13989) wedi ei dynnu yn ôl.

Adroddiad Asiantaeth Gwella a Datblygu The Improvement and Development Agency Report

Q7 Alun Cairns: What discussions has the Minister had with Swansea City and County Council regarding the Improvement and Development Agency report? (OAQ13981)

Edwina Hart: I have had no discussions with Swansea council about this report.

C7 Alun Cairns: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Dinas a Sir Abertawe ynghylch adroddiad yr Asiantaeth Gwella a Datblygu? (OAQ13981)

Edwina Hart: Nid wyf wedi cael trafodaethau â chyngor Abertawe am yr

adroddiad hwn.

Alun Cairns: I am staggered by your response. Will you react in line with your responsibilities and pursue this matter with Swansea council? It has received a most damning independent report on the running of its business.

Alun Cairns: Mae eich ateb wedi fy syfrdanu. A wnewch chi ymateb yn unol â'ch cyfrifoldebau a mynd ar drywydd y mater hwn â chyngor Abertawe? Mae wedi derbyn adroddiad annibynnol damniol iawn ar y modd y cynhalia ei fusnes.

Edwina Hart: Unlike you, Alun, I am pleased that the local authority has been prepared to tackle these issues head on and discuss them in public, through the media. That was a positive step. It also fits nicely with the Wales improvement programme agenda, which is part of the local modernisation agenda. It is appalling that local authorities who have tackled these issues head on are condemned in this Chamber.

Edwina Hart: Yn wahanol i chi, Alun, yr wyf yn falch y bu'r awdurdod lleol yn barod i fynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol a'u trafod hwy'n gyhoeddus, drwy'r cyfryngau. Yr oedd hynny yn gam cadarnhaol. Mae hefyd yn gweddu'n dda ag agenda'r rhaglen gwella Cymru, sy'n rhan o'r agenda foderneiddio leol. Mae'n ofnadwy bod yr awdurdodau lleol sydd wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol yn cael eu condemnio yn y Siambr hon.

Val Lloyd: I declare an interest as a member of Swansea council. I am pleased with that response. Do you have plans to encourage other local authorities to follow Swansea council's positive lead in obtaining external evaluation of service provision?

Val Lloyd: Datganaf fuddiant fel aelod o gyngor Abertawe. Yr wyf yn fodlon â'r ymateb. A oes gennych gynlluniau i annog awdurdodau lleol eraill i ddilyn arweiniad cadarnhaol cyngor Abertawe wrth gael gwerthusiad allanol o ddarpariaeth gwasanaethau?

Edwina Hart: External evaluation is quite proper. Many local authorities believe that it is an excellent way to do things. The Improvement and Development Agency is a respected organisation, because it has a clear understanding of local government issues. I do not routinely discuss the internal workings of local authorities with them, but if they raise these matters with me, I always like to discuss them, and perhaps pass on best practice to other authorities.

Edwina Hart: Mae'n briodol cael gwerthusiad allanol. Mae llawer o awdurdodau lleol o'r farn ei fod yn ffordd ardderchog o wneud pethau. Mae'r Asiantaeth Gwella a Datblygu yn sefydliad sy'n cael ei barchu, gan fod ganddo ddealltwriaeth glir o faterion llywodraeth leol. Nid wyf yn trafod gweithrediadau mewnol awdurdodau lleol â hwy yn rheolaidd, ond, os byddant yn codi'r materion hyn â mi, yr wyf bob tro yn hoffi eu trafod, ac efallai trosglwyddo arferion gorau i awdurdodau eraill.

David Lloyd: Datganaf fuddiant fel aelod o gyngor Abertawe—aelod o un o'r gwrthbleidiau. Un o'r amryw ddiffygion a nodir yn yr adroddiad hwn yw'r diffyg strategaeth tymor hir mewn nifer o feysydd, yn enwedig datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe. Fel y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, a wnewch chi weithredu ar hyn?

David Lloyd: I declare an interest as a member of Swansea council—a member of one of the opposition parties. One of the many shortcomings noted in this report is the lack of a long-term strategy in a number of areas, particularly the development of Welsh-medium education in Swansea. As the Minister for Local Government, will you act on this?

Edwina Hart: The report has been published and the council has responded by establishing

Edwina Hart: Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi ac mae'r cyngor wedi ymateb drwy

an action plan. That will focus on three identified key areas of weakness, namely, performance management, communication, and customer care. Implementation is a matter for the local authority. Welsh medium education across Wales is a matter for my colleague, the Minister for Education and Lifelong Learning.

The Deputy Presiding Officer: Question 8 (OAQ13887) is transferred for written answer.

sefydlu cynllun gweithredu. Bydd hynny yn canolbwyntio ar dri maes gwan sydd wedi eu nodi, sef, rheoli perfformiad, cyfathrebu, a gofal cwsmeriaid. Mater i'r awdurdod lleol yw gweithredu. Mae addysg Gymraeg ledled Cymru yn fater i'm cyd-Aelod, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Y Dirprwy Lywydd: Trosglwyddir Cwestiwn 8 (OAQ13887) ar gyfer ateb ysgrifenedig.

Creu Cyfleusterau Lleol i Bobl Ifanc Establishing Local Amenities for Young People

Q9 David Davies: What plans does the Minister have to make grant aid available to community councils for establishing local amenities for young people? (OAQ13904)

C9 David Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu cymorth grant i gynghorau cymuned ar gyfer creu cyfleusterau lleol i bobl ifanc? (OAQ13904)

Edwina Hart: The funding of town and community councils in Wales will be one of the issues examined by the review of the role, functions and future potential of community councils which will shortly be commissioned by the Assembly on the basis of discussion by the partnership. I am sympathetic towards their role in this regard.

Edwina Hart: Bydd ariannu cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn un o'r materion a astudir gan yr adolygiad o rôl, swyddogaethau a photensial cynghorau cymuned i'r dyfodol. Caiff yr adolygiad ei gomisiynu cyn bo hir gan y Cynulliad ar sail trafodaeth gan y bartneriaeth. Yr wyf yn gydymdeimladol tuag at eu rôl yn hyn o beth.

David Davies: The Minister will not be aware that hundreds of young people in Raglan have lobbied the community council for a skateboard park. Could the Assembly assist with funding such schemes?

David Davies: Ni fydd y Gweinidog yn ymwybodol bod cannoedd o bobl ifanc yn Rhaglan wedi llobio'r cyngor cymuned am barc sgrialfyrddau. A allai'r Cynulliad gynorthwyo gydag ariannu mentrau o'r fath?

Edwina Hart: I am aware that young people in my constituency have also lobbied for a skateboard park. The community council, in partnership with the local authority, has looked for grant regimes elsewhere and Sportlot has obtained the funds. There is nothing that I can do directly about this issue, but I will consider it in light of your comments.

Edwina Hart: Yr wyf yn ymwybodol bod pobl ifanc yn fy etholaeth i hefyd wedi llobio am barc sgrialfyrddau. Mae'r cyngor cymuned, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, wedi edrych am gynlluniau grant mewn manau eraill ac mae Sportlot wedi cael yr arian. Nid oes dim y gallaf ei wneud yn uniongyrchol ynglŷn â'r mater hwn, ond byddaf yn ei ystyried yn dilyn eich sylwadau.

Gosod Larymau Mwg a Charbon Monocsid mewn Tai Cyhoeddus Installation of Smoke and Carbon Monoxide Detectors in Public Housing

Q10 Mick Bates: What progress has there been regarding the installation of hardwired smoke and carbon monoxide detectors in public housing? (OAQ13975)

C10 Mick Bates: Pa gamau a gymerwyd o ran gosod larymau mwg a charbon monocsid gwifredig mewn tai cyhoeddus? (OAQ13975)

Edwina Hart: We set up the community fire

Edwina Hart: Sefydlasom y gweithgor

safety working group to examine, among other matters, the scope for widespread adoption in Wales of hardwired smoke detectors in social housing. The group's report was submitted to the Local Government and Housing Committee on 7 November. A number of recommendations, including the target for all social housing to have hardwired detectors by the end of 2005, have been made, which I will be considering for inclusion in the new programme for 2002-03 onwards in order to take this forward.

The Health and Safety Executive also has an ongoing campaign to draw the public's attention to, and to build public awareness of, the dangers of carbon monoxide. Current policy remains that while carbon monoxide detectors give early warning of problems with fuel appliances, they are no substitute for properly maintained appliances and flues. I am currently considering the merits of making them mandatory in all newly provided social housing.

Mick Bates: What progress is being made to form a rolling programme to ensure that all local authorities meet the requirements in your statement?

Edwina Hart: We will be considering that aspect. The community fire safety working group has highlighted many key issues on this subject, which we will explore in Committee, and I will take them forward with Welsh local government.

The Deputy Presiding Officer: Question 11 (OAQ13893) has been transferred for written answer.

diogelwch tân cymunedol i astudio, ymysg materion eraill, y cyfle i wneud defnydd helaeth yng Nghymru o larymau mwg gwifredig mewn tai cymdeithasol. Cyflwynwyd adroddiad y grŵp i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 7 Tachwedd. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion, yn cynnwys sicrhau bod pob tŷ cymdeithasol yn cael larymau gwifredig erbyn diwedd 2005, a byddaf yn ystyried eu cynnwys yn y rhaglen newydd ar gyfer 2002-03 ymlaen er mwyn gweithredu ar hyn.

Yn ogystal mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymgyrch barhaus i dynnu sylw'r cyhoedd at beryglon carbon monocsid ac i gynyddu eu hymwybyddiaeth o hyn. Yn ôl y polisi presennol, gall larymau carbon monocsid roi rhybudd cynnar am broblemau gyda dyfeisiau tanwydd, ond yr ateb yw sicrhau bod yr offer a ffliwiau wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol. Ar hyn o bryd yr wyf yn ystyried y manteision o'u gwneud yn orfodol ym mhob tŷ cymdeithasol newydd.

Mick Bates: Pa gamau a gymerir i ffurfio rhaglen dreigl i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn bodloni'r gofynion yn eich datganiad?

Edwina Hart: Byddwn yn ystyried yr agwedd honno. Mae'r gweithgor diogelwch tân cymunedol wedi pwysleisio nifer o faterion allweddol ar y pwnc hwn, y byddwn yn eu hystyried yn y Pwyllgor, a byddaf yn eu codi gyda llywodraeth leol Cymru.

Y Dirprwy Lywydd: Mae cwestiwn 11 (OAQ13893) wedi ei drosglwyddo ar gyfer ei ateb yn ysgrifenedig.

Monitro Cydweithredu Rhwng Awdurdodau Lleol Cyffiniol Monitoring Co-operation between Neighbouring Local Authorities

C12 David Lloyd: A yw'r Gweinidog yn monitro faint o gydweithredu sy'n digwydd rhwng awdurdodau lleol cyffiniol yng Nghymru? (OAQ13885)

Edwina Hart: I do not undertake formal monitoring although I am aware of what takes place between local authorities. I wish to encourage more joint working between local authorities and I will be holding further

Q12 David Lloyd: Does the Minister monitor the level of co-operation between neighbouring local authorities in Wales? (OAQ13885)

Edwina Hart: Nid wyf yn ymgymryd â monitro ffurfiol er fy mod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd rhwng awdurdodau lleol. Yr wyf eisiau annog mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a byddaf yn cynnal

discussions on that with Welsh local government.

David Lloyd: A oes strwythur penodol, felly, i dderbyn ymatebion gan yr awdurdodau lleol ynteu ar hap a damwain yn unig y digwydd hyn?

Edwina Hart: I do not have a specific structure but I want to encourage more joint working in future. It has been successful in some areas within Welsh local authorities and I would like to have further discussions with them to see how that work can be enhanced. There are economies of scale in some sections of the work of local authorities, across transport, particularly, and across social services and Welsh-medium education.

trafodaethau pellach ar hynny gyda llywodraeth leol Cymru.

David Lloyd: Is there a specific structure, therefore, for receiving responses from the local authorities or does that just happen by chance?

Edwina Hart: Nid oes gennyf strwythur penodol ond yr wyf eisiau annog mwy o gydweithio yn y dyfodol. Bu'n llwyddiannus mewn rhai meysydd o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru a hoffwn gael trafodaethau pellach gyda hwy i weld sut y gellir ymestyn y gwaith hwnnw. Mae arbedion maint mewn rhai adrannau o waith awdurdodau lleol, ar draws cludiant, yn enwedig, ac ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithredu'r Rhaglen Foderneiddio ar gyfer Llywodraeth Leol Implementing the Modernisation Programme for Local Government

Q13 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on the implementation of the modernisation programme for local government in Wales? (OAQ13905)

Edwina Hart: All local authorities must submit their arrangements by 31 January 2002. They are currently consulting on the matter. When those consultations are completed I will make my decision on their structures.

Jonathan Morgan: One of the modernisation programme's requirements was for local authorities to consult widely with residents. Are you convinced by the level of consultation throughout the local authorities in Wales? In Cardiff, the level of consultation has been low. All that Cardiff City and County Council has done is listed the options in *Capital Times*. That is not high-level consultation. Is the Minister able to intervene?

Edwina Hart: If I have any direct representations on consultation by a local authority in Wales, I will answer those queries and will consider the ongoing consultation process. I have already told one local authority that I want further steps taken in respect of consultation.

C13 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu'r rhaglen foderneiddio ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ13905)

Edwina Hart: Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gyflwyno eu trefniadau erbyn 31 Ionawr 2002. Ar hyn o bryd maent yn ymgynghori ar y mater. Pan gaiff yr ymgynghoriadau hynny eu cwblhau byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad ar eu strwythurau.

Jonathan Morgan: Un o ofynion y rhaglen foderneiddio oedd bod awdurdodau lleol yn ymgynghori'n eang â thrigolion. A ydych wedi eich argyhoeddi gan lefel yr ymgynghori yn yr awdurdodau lleol yng Nghymru? Yng Nghaerdydd, bu'r lefel ymgynghori yn isel. Yr unig beth y mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd wedi ei wneud yw rhestru opsiynau yn *Capital Times*. Nid ymgynghori ar lefel uchel mo hynny. A all y Gweinidog ymyrryd?

Edwina Hart: Os caf unrhyw gynrychioliadau uniongyrchol ar ymgynghori gan awdurdod lleol yng Nghymru, byddaf yn ateb yr ymholiadau hynny ac yn ystyried y broses ymgynghori barhaus. Yr wyf eisoes wedi dweud wrth un awdurdod lleol fy mod eisiau iddynt gymryd camau pellach o ran ymgynghori.

The Deputy Presiding Officer: Question 14 (OAQ13943) has been withdrawn.

Y Dirprwy Lywydd: Mae cwestiwn 14 (OAQ13943) wedi ei dynnu yn ôl.

Datblygu Polisiau Tai Housing Policy Development

C15 Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion San Steffan ynghylch datblygu polisiau ym maes tai? (OAQ13941)

Q15 Owen John Thomas: What discussions has the Minister had with Westminster Ministers concerning policy development in the field of housing? (OAQ13941)

Edwina Hart: My officials are in regular contact with their opposite numbers regarding the development of housing policies that will impact on Wales, and they keep me advised. I meet with Government Ministers as required, in line with the issue and the circumstances. I also keep in contact with Ministers in the other devolved administrations on housing issues.

Edwina Hart: Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r aelodau cyfatebol yn y gwrthbleidiau o ran datblygu polisiau tai a fydd yn cael effaith ar Gymru, ac maent yn fy hysbysu yn rheolaidd. Yr wyf yn cyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth yn ôl y gofyn, yn unol â'r mater a'r amgylchiadau. Yr wyf hefyd yn cadw mewn cysylltiad â Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill ar faterion tai.

9:25 a.m.

Owen John Thomas: Mae problem gyda phrydlesu yng Nghymru, sydd wedi bod gyda ni ers dros ganrif. Mae Mesur prydles gerbron y Senedd, sydd yn ymdrin yn bennaf â fflatiau, ond mae rhan fach yn ymwneud â thai. A wnewch drafod gyda'r Gweinidog cyfatebol yn Llundain er mwyn cynnwys gwelliannau yn y Mesur hwnnw er lles prydleswyr yng Nghymru?

Owen John Thomas: We have a problem with leasehold in Wales, which we have had for over a century. There is a leasehold Bill before Parliament, which deals mainly with flats, but a short section deals with houses. Will you hold discussions with your ministerial counterpart in London to amend that Bill for the benefit of leaseholders in Wales?

Edwina Hart: I will consider the legislation that is being proposed in Westminster and, if I am able to facilitate matters, I will raise that in discussions with the Housing Minister in England.

Edwina Hart: Byddaf yn ystyried y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnig yn San Steffan ac, os gallaf hwyluso materion, byddaf yn codi hynny mewn trafodaethau â'r Gweinidog Tai yn Lloegr.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd Questions to the Minister for Environment

Gwella Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Improving Flood Defences

Q1 Huw Lewis: Will the Minister report on the flood review work to improve flood defences? (OAQ13967)

C1 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y gwaith o adolygu llifogydd er mwyn gwella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd? (OAQ13967)

The Minister for Environment (Sue Essex): The review is well underway and

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo ac

embraces many issues affecting the delivery of flood management in Wales. I gave a brief oral report to the Environment, Planning and Transport Committee yesterday and plan to report more fully to the Committee in January.

Huw Lewis: About a year ago I raised with you the issue of the cost benefit analysis that is used to decide whether or not flood defences are improved or created. That includes an element of property values—in domestic properties that means house prices—which in turn means that the homes of the well-off are more likely to be protected than the homes of the less well-off. Has that remained at the forefront of your mind, and what progress has been made to correct that social injustice?

Sue Essex: I know that you feel strongly about this issue, as do other Members. Jane has also approached me about this. The analysis inadequately covers the social impacts of flooding in communities, particularly those communities that you and other Members represent. The way that the whole system is financed and funded, and the way that decisions are made will be part of the review.

David Davies: What impact will the present changing over of the river authorities have on flooding?

Sue Essex: We are looking at responsibilities across the whole area. It became clear during the last floods over a year ago that people could not come to grips with what was a main river and what was not a main river, and where responsibility lay. That leads to confusion in terms of responsibilities and public perception. As part of the flood review, we need to make the system clearer and more open to the public so that people know who is responsible and whom to contact when there is a major problem.

Janet Ryder: As people in Ruthin learnt only a month ago, bringing in long-term flood defences takes time and there is a need for immediate protection against recurring

yn cwmpasu sawl mater sy'n effeithio ar gyflwyno system rheoli llifogydd yng Nghymru. Rhoddais adroddiad byr ar lafar i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ddoe ac yr wyf yn bwriadu cyflwyno adroddiad llawnach i'r Pwyllgor ym mis Ionawr.

Huw Lewis: Tua blwyddyn yn ôl codais fater dadansoddi buddiant cost a ddefnyddir i benderfynu a yw amddiffynfeydd llifogydd yn cael eu gwella neu eu creu. Mae hynny yn cynnwys elfen o werthoedd eiddo—mewn eiddo domestig golyga hynny brisiau tai—sydd yn ei dro yn golygu bod cartrefi'r rhai cefnog yn fwy tebygol o gael eu diogelu na chartrefi'r rhai llai cefnog. A yw hynny wedi aros yn eich meddwl, a pha gynnydd a wnaed i gywiro'r anghyfiawnder cymdeithasol hwnnw?

Sue Essex: Gwn eich bod yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r mater hwn, fel y gwna Aelodau eraill. Mae Jane hefyd wedi sôn wrthyf hyn. Nid yw'r dadansoddiad yn cwmpasu effeithiau cymdeithasol llifogydd mewn cymunedau yn ddigonol, yn enwedig yn y cymunedau hynny yr ydych chi ac Aelodau eraill yn eu cynrychioli. Bydd y modd y mae'r system gyfan yn cael ei hariannu a'i noddi, a'r ffordd y gwneir penderfyniadau yn rhan o'r adolygiad.

David Davies: Pa effaith a gaiff newid yr awdurdodau afonydd presennol ar lifogydd?

Sue Essex: Yr ydym yn edrych ar gyfrifoldebau ar draws yr ardal gyfan. Daeth yn amlwg yn ystod y llifogydd diwethaf dros flwyddyn yn ôl nad oedd pobl yn gallu gwahaniaethu rhwng yr hyn a oedd yn brif afon a'r hyn nad oedd yn brif afon, a phwy oedd yn gyfrifol. Mae hynny yn arwain at ddryswch o ran cyfrifoldebau a barn gyhoeddus. Fel rhan o'r adolygiad llifogydd, mae angen inni wneud y system yn gliriach ac yn fwy agored i'r cyhoedd fel bod pobl yn gwybod pwy sy'n gyfrifol a phwy i gysylltu â hwy pan fydd problem fawr.

Janet Ryder: Fel y dysgodd pobl yn Rhuthun prin fis yn ôl, mae creu amddiffynfeydd llifogydd hirdymor yn cymryd amser ac mae angen diogelu ar

floods. Will you give an assurance today that schemes that are being developed, such as the one in Ruthin to protect residents in Mwrog Street and Tŷ'n y Parc, from further flooding in the short term, will be funded in order to guarantee protection for those people who desperately need it?

Sue Essex: Denbighshire County Council has not approached us about interim funds at present. However, I understand that the two options under consideration would take a long time to materialise. One would perhaps take longer than the other, but that may be the preferred solution. The council is considering interim solutions, which may be more extensive than the interim gates that were put along properties. Once Denbighshire has a way forward, we would be interested to see whatever it sends through.

Rod Richards: That particular example, to which the Minister referred, had a devastating effect on the people of Ruthin, who were recently flooded out again. Will the Minister tell us why work on these proposed flood defences for Ruthin has not commenced? I am not interested in Denbighshire County Council; I want to know what the Minister is doing about it.

Sue Essex: You should be interested in what Denbighshire County Council is doing because it is the authority responsible for the work. If you want progress, you must listen to the people who are responsible and Denbighshire County Council must listen to its local community. That is exactly what is going on. If the Assembly railroads local government in Wales, virtually all of you—I would hope—would say that these are local government's responsibilities. The Assembly cannot ride roughshod over existing legal arrangements and responsibilities. In Denbighshire, because it is an important issue for the local community, we have been in close dialogue. One of our officials is in frequent contact with Denbighshire County Council to give it the support and encouragement needed. I hope that, with the two options on offer, and with the public consultation, a long-term solution for the

unwaith rhag llifogydd sy'n digwydd yn rheolaidd. A roddwch sicrwydd heddiw y bydd cynlluniau sy'n cael eu datblygu, megis yr un yn Rhuthun i ddiogelu trigolion yn Stryd Mwrog a Tŷ'n y Parc, rhag llifogydd pellach yn y byrdymor, yn cael eu hariannu er mwyn gwarantu diogelwch i'r bobl hynny sydd ei angen o ddifrif?

Yr wyf wedi gofyn i Blant yng Nghymru, fel y corff ymbarél sy'n cynrychioli'r sectorau plant statudol a gwirfoddol, gynnull tasglu i gyflwyno adroddiad yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yr amcanion yw sicrhau trefniadau addas ac ymarferol er mwyn parhau â'r gwasanaethau, gyda'r bwriad o gadw sgiliau'r staff presennol. Mae'r amserlen yn ystyried y ffaith bod Cymdeithas y Plant wedi cyhoeddi y bydd yn tynnu'n ôl o Gymru o fis Gorffennaf y flwyddyn nesaf.

Cadeirydd y tasglu fydd Christine Walby, un o ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru a chymrawd ymchwil anrhydeddus Prifysgol Cymru Abertawe, sydd â phrofiad o weithio yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Yr wyf yn ddiolchgar iddi am gytuno i ymgymryd â'r gwaith hwn. Bydd aelodau'r tasglu yn cynnwys cynrychiolwyr y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, cynrychiolwyr staff a rheolwyr Cymdeithas y Plant, awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd yn noddi prosiectau, y Cynulliad, yr Eglwys yng Nghymru, Cytûn, a sefydliadau eraill sydd â diddordeb efallai mewn noddi parhad prosiectau neu sydd ag arbenigedd i'w gynnig. Gwahoddir y tasglu i edrych ar ffyrdd o gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses hon.

Mae Plant yng Nghymru yn gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod cynnar o'r tasglu gyda'r ystod eang o'r cyrff â diddordeb y soniais amdanynt. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad pan ddaw canlyniad gwaith y tasglu yn hysbys.

Janet Ryder: Cafodd llawer ohonom ein siomi'n fawr yn sgîl cyhoeddiad Cymdeithas y Plant ei bod yn bwriadu tynnu ei phrosiectau yng Nghymru yn ôl. Yr wyf yn falch ichi gyfarfod â'r gymdeithas mor fuan. Gwn eich bod yn rhannu fy mhryder ynglŷn â pharhad y prosiectau, yn arbennig y rhai sy'n

vulnerable young people. I welcome the establishment of the taskforce. However, will you give an assurance that children will not go without advocacy services? Many of those services were set up in response to the Waterhouse report and it is vital that they continue. Will you guarantee that children will not be left without advocacy services, and that the taskforce will report back before the July deadline set by the Children's Society?

Will you also review the role of voluntary organisations in providing services, particularly ones such as these? We are becoming increasingly reliant on voluntary organisations to provide services, particularly in terms of social services. It raises the issue of how voluntary organisations, and therefore those services, are funded. What is your view on this, and what long-term implications does this have for other services? Will you review this issue and, if so, when will you report back to the Assembly on it?

Jane Hutt: The aim of the taskforce is to seek ways to safeguard those important services for vulnerable children and young people. I anticipate that much of the work will be done in the next few months; it will not be drawn out until July. We need prompt decisions. We are trying to persuade the Children's Society not to withdraw from Wales. That must be our first port of call in terms of its responsibilities. Work needs to be done quickly.

In terms of the role of voluntary organisations in Wales, this has highlighted—and it has happened before—that some UK organisations in Wales have not devolved their responsibilities and constitutional arrangements sufficiently to Wales. Many organisations which work in partnership with UK bodies have set up their own Welsh offices. They then apply to local authorities and the Assembly for funding. We must ensure that we look at those UK organisations with which we do not have a direct relationship and line of accountability. That is a good point to take back for review.

Peter Black: I welcome your statement, and

cefnogi pobl ifanc ddiamddiffyn. Croesawaf y newyddion y caiff tasglu ei sefydlu. Fodd bynnag, a roddwch sicrwydd na fydd plant yn mynd heb wasanaethau eirioli? Sefydlwyd llawer o'r gwasanaethau hynny o ganlyniad i adroddiad Waterhouse ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau. A warantwch na adewir plant heb wasanaethau eirioli, ac y bydd y tasglu yn cyflwyno adroddiad cyn y terfyn amser ym mis Gorffennaf a bennwyd gan Gymdeithas y Plant?

A wnewch chi adolygu rôl y sefydliadau gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau hefyd, yn arbennig rhai fel y rhain? Yr ydym yn gynyddol ddibynnol ar sefydliadau gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau, yn arbennig o ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n codi cwestiwn am sut yr ariennir y sefydliadau gwirfoddol, ac felly y gwasanaethau hynny. Beth yw eich barn ar hyn, a pha oblygiadau hirdymor sydd i wasanaethau eraill? A adolygwch y mater hwn ac, os felly, pryd y cyflwynwch adroddiad arno i'r Cynulliad?

Jane Hutt: Nod y tasglu yw ceisio ffyrdd o ddiogelu'r gwasanaethau pwysig hynny i blant a phobl ifanc ddiamddiffyn. Rhagwelaf y gwneir llawer o'r gwaith yn yr ychydig fisoedd nesaf; ni chaiff ei lunio tan fis Gorffennaf. Mae angen penderfyniadau prydlon. Ceisiwn ddarbwylllo Cymdeithas y Plant i beidio â thynnu'n ôl o Gymru. Dyna'n man cychwyn o ran ei chyfrifoldebau. Rhaid gweithio'n gyflym.

O ran rôl sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru, mae hyn wedi amlygu—ac mae wedi digwydd o'r blaen—nad yw rhai o sefydliadau'r DU yng Nghymru wedi datganoli eu cyfrifoldebau a'u trefniadau cyfansoddiadol yn ddigonol i Gymru. Mae llawer o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â chyrrff y DU wedi sefydlu eu swyddfeydd eu hunain yng Nghymru. Yna gwnânt gais i'r awdurdodau lleol ac i'r Cynulliad am arian. Rhaid inni sicrhau ein bod yn ystyried y sefydliadau hynny yn y DU nad oes gennym berthynas uniongyrchol â hwy nac atebolrwydd. Mae hwnnw'n bwynt da i'w gynnwys yn yr adolygiad.

Peter Black: Croesawaf eich datganiad, a'ch

your valuable work to try to retain these services and projects in Wales. Will you actively engage local councils in the areas where projects are situated and consider using your budget to ensure, if necessary, that additional funding is made available to ensure continuity of service provision and thus offer security to employees and comfort to the many children who benefit from these projects? That way, we can, as soon as possible, determine the future of these projects and ensure that we do not go right to the wire in terms of knowing whether they will continue next year.

Jane Hutt: We are bringing local government into the taskforce because, as I said, many of these projects are in local authority areas and are supported as part of partnerships with local government. Many of those partnerships are also supported by the Assembly through the schemes that I identified. Therefore, there must be a partnership approach to ensuring that we safeguard those services and consider every avenue and opportunity to do so with the commitment, not only of the Assembly, but also of local government, trusts and other voluntary organisations in Wales. European funding is also involved, in addition to the Children's Society itself—we do not want it to leave Wales in this state.

David Melding: Do you agree that, regrettably, the Children's Society is rapidly gaining a reputation for being the Marconi of the charitable sector? It has squandered considerable assets in a short time and its response has been a swingeing cutback on its operation in Wales, which amounts to robbing off its enterprises here. As well as being shocked by this, do you agree that it sets a dangerous precedent for all organisations that operate on an England and Wales basis. They see one of the largest and oldest charities in Britain responding to devolution by removing all of its operations from Wales. The Assembly must send the message that that is unacceptable.

I repeat my welcoming of the action taken by one of the joint presidents of the Children's

gwaith gwerthfawr i geisio cadw'r gwasanaethau a'r prosiectau hynny yng Nghymru. A wnewch chi gysylltu â chynghorau lleol yn yr ardaloedd lle y lleolir y prosiectau, ac ystyried defnyddio eich cyllideb er mwyn sicrhau, os bydd angen, bod arian ychwanegol ar gael i sicrhau parhad y ddarpariaeth gwasanaethau a chynnig diogelwch felly i'r cyflogeion a chysur i'r llu o blant sy'n elwa ar y prosiectau hyn? Drwy wneud hyn, gallwn benderfynu cyn gynted â phosibl ar ddyfodol y prosiectau hyn a sicrhau na adawn bethau tan y funud olaf cyn gwybod a fyddant yn parhau y flwyddyn nesaf.

Jane Hutt: Yr ydym yn cynnwys llywodraeth leol yn y tasglu oherwydd, fel y dywedais, mae llawer o'r prosiectau hyn mewn ardaloedd awdurdod lleol ac fe'u cefnogir fel rhan o bartneriaethau â llywodraeth leol. Cefnogir llawer o'rartneriaethau hyn hefyd gan y Cynulliad drwy'r cynlluniau a nodais. Felly, rhaid wrth ymagwedd bartneriaeth tuag at sicrhau ein bod yn diogelu'r gwasanaethau hynny ac yn ystyried pob ffordd a chyfle o wneud hynny, nid yn unig gydag ymrwymiad y Cynulliad, ond hefyd llywodraeth leol, ymddiriedolaethau a sefydliadau gwirfoddol eraill yng Nghymru. Mae arian Ewrop yn gysylltiedig â hyn hefyd, yn ogystal â Chymdeithas y Plant ei hun—nid ydym am iddi adael Cymru yn y cyflwr hwn.

David Melding: A gytunwch fod Cymdeithas y Plant, yn anffodus, yn prysur ennill enw gwael iddi ei hun am fod yn Marconi y sector elusenol? Mae wedi gwastraffu asedion sylweddol mewn byr amser a'i ymateb i hyn fu cwtogi'n llym ar ei gwaith yng Nghymru, sy'n gyfystyr â dwyn oddi ar ei mentrau yma. Yn ogystal â rhoi sioc fawr inni, a gytunwch ei bod yn gosod cysnail beryglus i bob sefydliad sy'n gweithredu ar sail Cymru a Lloegr. Gwelant un o elusennau mwyaf a hynaf Prydain yn ymateb i ddatganoli drwy ddiddymu pob un o'i gweithrediadau yng Nghymru. Rhaid i'r Cynulliad gyfleu'r neges bod hynny'n annerbyniol.

Unwaith eto, dywedaf fy mod yn croesawu'r camau a gymerwyd gan un o gydlywyddion

Society—the Archbishop of Wales—in resigning in protest. We need to send a similar severe response to the Children's Society because no matter what you manage to salvage from the wreckage—and I support your noble efforts in that regard—what has happened is a disgrace and is unacceptable. We should be clear in telling the Children's Society about the inadequacy, from start to finish, of what it has proposed.

I welcome the taskforce that you will set up and I hope that other organisations will be able to take up much of this work. You will have our full support in those endeavours. However, an Assembly Minister should never again be put in the shocking position of having to recover a situation within months because a charity has mismanaged its finances, and on top of that, has made a most inappropriate managerial decision. From start to finish, the Children's Society has behaved disgracefully and has denied the mission, which it has proudly espoused for 130 years.

Jane Hutt: Your views have been echoed not just in this Chamber, but throughout Wales and by the Church in Wales, given the resignation of Archbishop Rowan Williams as one of the joint presidents of the society. I will read from a letter from the Church in Wales's council of mission and ministry:

'We are extremely unhappy about the lack of adequate consultation prior to the decision by the trustees of this society, not least the failure to consult the church given that the Church in Wales appears as part of the title of the society.'

I urge Members to take this up with the trustees of the Children's Society. As Members who are concerned about services in Wales, we are not going to take this lying down and I am grateful for your forceful points, David. As I said in response to Janet, we must consider the state and vulnerability of other England and Wales or UK organisations in terms of the security and sustainability of the voluntary sector. We must get the message across that devolution has happened in Wales and that it should mean devolution of power to those in Wales

Cymdeithas y Plant—Archesgob Cymru—sef gwrthdystio drwy ymddiswyddo. Mae angen inni anfon ymateb difrifol tebyg i Gymdeithas y Plant oherwydd waeth beth y llwyddwch i'w achub o'r llanastr—a chefnogaf eich ymdrechion clodwiw yn hynny o beth—mae'r hyn a ddigwyddodd yn gywilydd ac yn annerbyniol. Dylem fod yn dweud wrth Gymdeithas y Plant fod yr hyn a gynigiodd, o'r dechrau i'r diwedd, yn annigonol.

Croesawaf y tasglu a sefydlir gennych a gobeithiaf y gall sefydliadau eraill ymgymryd â llawer o'r gwaith hwn. Byddwn yn eich cefnogi'n llwyr yn yr ymdrechion hynny. Fodd bynnag, ni ddylid byth rhoi un o Weinidogion y Cynulliad yn y sefyllfa ofnadwy eto o orfod adfer sefyllfa o fewn misoedd gan fod elusen wedi camreoli ei harian, ac ar ben hynny, wedi gwneud penderfyniad rheoli amhriodol iawn. O'r dechrau i'r diwedd, mae Cymdeithas y Plant wedi ymddwyn yn warthus ac wedi gwrthod y genhadaeth, a arddelodd gyda balchder am 130 o flynyddoedd.

Jane Hutt: Adleisiwyd eich safbwyntiau nid yn unig yn y Siambr hon, ond ledled Cymru a chan yr Eglwys yng Nghymru, o gofio ymddiswyddiad yr Archesgob Rowan Williams o fod yn gydlywydd y gymdeithas. Darllenaf o lythyr gan gyngor cenhadu a gweinidogaethu yr Eglwys yng Nghymru:

'Yr ydym yn anfodlon iawn nad oedd digon o ymgynghori cyn i ymddiriedolaethwyr y gymdeithas hon benderfynu, yn anad dim y ffaith nad oeddynt wedi ymgynghori â'r eglwys, o gofio bod yr Eglwys yng Nghymru yn rhan o deitl y gymdeithas.'

Anogaf yr Aelodau i drafod hyn ag ymddiriedolwyr Cymdeithas y Plant. Fel Aelodau sydd yn pryderu am wasanaethau yng Nghymru, nid ydym yn mynd i'w dderbyn heb wrthwynebu ac yr wyf yn ddiolchgar am eich pwyntiau grymus, David. Fel y dywedais yn fy ymateb i Janet, rhaid inni ystyried cyflwr a natur ddiamddiffyn sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr neu'r DU o ran diogelwch a chynaliadwyedd y sector gwirfoddol. Rhaid inni gyfleu'r neges bod datganoli wedi digwydd yng Nghymru ac y dylai olygu datganoli pŵer i'r

who are trying to support our most vulnerable children and young people.

10:05 a.m.

Tom Middlehurst: The society stands condemned for its handling of this announcement. It is ham-fisted and insensitive. The announcement has created much uncertainty among those who are in receipt of its services and among its employees in Wales, who provide a valuable service to our people and communities. In reviewing the society's work, will you ask the taskforce to consider all the children's services that are provided by the voluntary sector in Wales? Will you ask it to consider all the organisations that receive public funds to support their work to ensure that they take all opportunities to improve and increase the co-operation, and reduce the competition, between voluntary organisations and to encourage joint working in making the best use of those resources? In your discussions with Mr Sparks, did he indicate whether there were any cost pressures in Wales that might have persuaded the society to take this deplorable decision?

Jane Hutt: The children's voluntary sector in Wales is vibrant and all organisations work closely together. For example, they came together effectively and worked hard in forming policy that led to the appointment of the Children's Commissioner for Wales. The organisations are brought together by Children in Wales, which is an umbrella organisation for the statutory and voluntary sectors. They work powerfully together. They also play their role in Wales in many different ways in partnership with local authorities and the Assembly. I am convinced about their contribution and that they work more collaboratively as a result of the Assembly's establishment. That is because we expect that of them and they know that they must achieve that in order to progress in supporting children and young people. In terms of the decision of the Children's Society and Mr Sparks's response, which some Members may have heard on Radio 4 on Sunday morning, it is clear that the Children's Society is concerned with two countries and it had to sacrifice one. In England, only 20 per cent of the projects will

sawl yng Nghymru sy'n ceisio cefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf diamddiffyn.

Tom Middlehurst: Condemnir y gymdeithas am y ffordd yr ymdriniodd â'r cyhoeddiad hwn. Mae'n lletchwith a dideimlad. Mae'r cyhoeddiad wedi creu llawer o ansicrwydd ymhlith y rhai sydd yn derbyn ei gwasanaethau ac ymhlith ei gweithwyr yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i'n pobl a'n cymunedau. Wrth adolygu gwaith y gymdeithas, a ofynnwch i'r tasglu ystyried yr holl wasanaethau plant a ddarperir gan y sector gwirfoddol yng Nghymru? A ofynnwch iddi ystyried yr holl sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus i gefnogi eu gwaith er mwyn sicrhau y manteisiant ar bob cyfle i wella a chynyddu cydweithrediad, a lleihau'r gystadleuaeth rhwng sefydliadau gwirfoddol ac annog cydweithio gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny? Yn eich trafodaethau â Mr Sparks, a nododd a oedd rhyw bwysau o ran costau yng Nghymru a fyddai wedi darbwylo'r gymdeithas i wneud y penderfyniad affwysol hwn?

Jane Hutt: Mae sector gwirfoddol plant yng Nghymru yn fywiog ac mae pob sefydliad yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Er enghraifft, daethant at ei gilydd yn effeithiol gan weithio'n galed i lunio polisi a arweiniodd at benodi Comisiynydd Plant Cymru. Plant yng Nghymru sy'n dwyn y sefydliadau hyn ynghyd, sef sefydliad ymbarél y sectorau statudol a gwirfoddol. Gweithiant gyda'i gilydd yn rymus. Chwaraeant eu rhan hefyd yng Nghymru mewn sawl ffordd wahanol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r Cynulliad. Yr wyf yn argyhoeddedig o'u cyfraniad a'u bod yn cydweithio yn fwy o ganlyniad i sefydlu'r Cynulliad. Mae hynny am ein bod yn disgwyl hynny oddi wrthynt a'u bod yn gwybod bod yn rhaid iddynt gyflawni hynny er mwyn datblygu'r gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc. O ran penderfyniad Cymdeithas y Plant ac ymateb Mr Sparks, a glywodd rai o'r Aelodau efallai ar Radio 4 fore Sul, mae'n glir bod Cymdeithas y Plant yn ymwneud â dwy wlad a bu'n rhaid iddi aberthu un. Yn Lloegr, dim ond 20 y cant o'r prosiectau a ddileir, ond yng Nghymru caiff pob prosiect ei ddileu.

be cut, whereas all Welsh projects will be cut. Mr Sparks said that on the radio and in person to me. The Children's Society's attitude and extraordinary insensitivity is a disgrace. We will not take this lying down. As I said, I urge Members to take this up directly with trustees and through their contacts.

Helen Mary Jones: I press Jane further, in the light of her responses to Tom Middlehurst and Janet Ryder, to review the nature of the children's services provided by the voluntary sector in Wales, with a view to ensuring that essential core services receive sufficient public sector funding, so that they are not made vulnerable in this way again. The voluntary sector's traditional role was to carry out additional and innovative work that the public sector could not do. I am concerned, as are many Members, that the voluntary sector is now carrying out statutory work. I am not sure how appropriate that is. Will you take this opportunity to take a fresh look at how advocacy services are provided for children in care across Wales, with a view to considering establishing some kind of coherent national structure, so that children know what they can expect everywhere?

Jane Hutt: Those are important points. The children's voluntary sector has often been a leader in innovation, with local authorities and government then embedding those innovative policies and practices in their service delivery. However, the children's voluntary sector also provides services. Advocacy must be independent, so it is appropriate that it is not lodged inside local authorities. Independent advocacy must be provided by an independent organisation, such as the Children's Society—other organisations also provide it. Those organisations then have a service level agreement with the local authority. As you said, we must ensure that that is embedded in sustainable funding and service development streams. However, independence is key and that is why the voluntary sector is so important. Other projects will come forward and will play their part in initiating change and then possibly move on to other schemes. However, we must recognise that advocacy must be independent and we must secure the

Dywedodd Mr Sparks hynny ar y radio ac yn bersonol wrthyf fi. Mae agwedd a diffyg sensitifrwydd eithriadol Cymdeithas y Plant yn warthus. Ni dderbyniwn hyn heb wrthwynebiad. Fel y dywedais, anogaf yr Aelodau i drafod hyn yn uniongyrchol â'r ymddiriedolwyr a thrwy eu cysylltiadau.

Helen Mary Jones: Pwysaf ymhellach ar Jane yng ngoleuni ei hymatebion i Tom Middlehurst a Janet Ryder, i adolygu natur y gwasanaethau plant a ddarperir gan y sector gwirfoddol yng Nghymru, gyda'r bwriad o sicrhau bod y gwasanaethau craidd hanfodol yn cael digon o arian y sector cyhoeddus, fel na fyddant yn agored fel hyn eto. Rôl draddodiadol y sector gwirfoddol oedd cyflawni gwaith ychwanegol ac arloesol na allai'r sector cyhoeddus ei wneud. Pryderaf, fel y gwna llawer o'r Aelodau, fod y sector gwirfoddol yn cyflawni gwaith statudol yn awr. Nid wyf yn siŵr pa mor briodol yw hynny. A fanteisiwch ar y cyfle hwn i edrych o'r newydd ar y ffordd y darperir gwasanaethau eirioli i blant mewn gofal ledled Cymru, gyda'r bwriad o ystyried sefydlu rhyw fath o strwythur cenedlaethol cydlynol, fel bod plant yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl ym mhobman?

Jane Hutt: Mae'r rheini'n bwyntiau pwysig. Yn aml, bu sector gwirfoddol y plant ar y blaen wrth arloesi, gydag awdurdodau lleol a llywodraeth yn ymgorffori'r polisiau a'r arferion arloesol wrth ddarparu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, darperir gwasanaethau hefyd gan sector gwirfoddol y plant. Rhaid i eiriolaeth fod yn annibynnol, felly mae'n briodol na chaiff ei roi yng ngofal awdurdodau lleol. Rhaid i sefydliad annibynnol, fel Cymdeithas y Plant ddarparu eiriolaeth annibynnol—mae sefydliadau eraill yn ei darparu hefyd. Yna mae gan y sefydliadau hynny gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol. Fel y dywedasoch, rhaid inni sicrhau ei fod wedi ei hymgorffori mewn llifau ariannu cynaliadwy a datblygu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae annibyniaeth yn allweddol a dyna pam mae'r sector gwirfoddol mor bwysig. Daw prosiectau eraill i'r golwg a byddant yn chwarae eu rhan wrth ysgogi newid ac o bosibl yn symud ymlaen i gynlluniau eraill. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod yn

voluntary sector's role in that. I will certainly consider that further.

Ann Jones: I also state my disappointment in the society and with Mr Sparks's cavalier attitude. He has yet to respond to a letter that I wrote to him a week ago, asking him to reconsider the decision. I note, with disappointment, that he has not responded to your request either, Jane. The Church in Wales has played a valuable part in all of this.

The Deputy Presiding Officer: Order.

Ann Jones: I am coming to the question. You mentioned that this taskforce will not take a long time and I am grateful for that. We have a small window of opportunity. What assurances will you give to the staff, many of whom are not interested in protecting their own jobs as much as protecting vulnerable people, that the Assembly will be able to deal with the taskforce's recommendations?

Jane Hutt: That is an important point. The Children's Society has announced that it will withdraw from July next year, so that is the timescale. However, as I said, we must ensure that the taskforce completes its work early next year. It will possibly need to continue in a monitoring form, but recommendations and actions to safeguard the services, as well as the staff's contribution, must be done within the coming weeks. We must ensure that we do not lose those staff because of the insecurity that they now face. They are committed staff who have professional expertise and a dedication to their particular jobs. The quicker the taskforce gets on with its work, the better. We have all the players around the table. The Assembly will invest not only its expertise but some money now to help that taskforce do its job quickly and effectively.

Karen Sinclair: You have almost answered my question already, Jane. I wish to highlight that time is of the essence. If there is

rhaid i eiriolaeth fod yn annibynnol a rhaid inni sicrhau rôl y sector gwirfoddol yn hynny. Yn sicr, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny.

Ann Jones: Nodaf fy siomedigaeth hefyd yn y gymdeithas ac agwedd ffwrdd-â-hi Mr Sparks. Hyd yn hyn, nid yw wedi ymateb i lythyr a ysgrifennais ato wythnos yn ôl yn gofyn iddo ailystyried y penderfyniad. Nodaf, gyda siom, nad yw wedi ymateb i'ch cais chi ychwaith, Jane. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi chwarae rhan werthfawr yn hyn i gyd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Ann Jones: Dof at y cwestiwn. Gwnaethoch sôn na fydd y tasglu hwn yn cymryd llawer o amser ac yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Mae hwn yn rhoi rhywfaint o gyfle i ni. Pa sicrwydd a roddwch i'r staff, y mae gan lawer ohonynt fwy o ddiddordeb mewn diogelu pobl ddiamddiffyn yn hytrach na diogelu eu swyddi eu hunain, y bydd y Cynulliad yn gallu delio ag argymhellion y tasglu?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n bwynt pwysig. Mae Cymdeithas y Plant wedi cyhoeddi y bydd yn tynnu'n ôl o fis Gorffennaf y flwyddyn nesaf, felly dyna'r terfyn amser. Fodd bynnag, fel y dywedais, rhaid inni sicrhau bod y tasglu yn cwblhau ei waith yn gynnar y flwyddyn nesaf. O bosibl, bydd angen iddo barhau i fonitro, ond rhaid cyflwyno'r argymhellion a chymryd y camau i ddiogelu'r gwasanaethau, yn ogystal â chyfraniad y staff, o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Rhaid inni sicrhau na chollwn y staff hynny oherwydd yr ansicrwydd a wynebant yn awr. Maent yn staff ymroddedig sy'n meddu ar arbenigedd proffesiynol ac ymrwymiad i'w swyddi penodol. Po gyflymaf y cyflawna'r tasglu ei waith, gorau oll. Mae pawb sy'n chwarae rhan wedi dod ynghyd. Bydd y Cynulliad nid yn unig yn buddsoddi ei arbenigedd ond rhywfaint o arian yn awr i helpu'r tasglu hwnnw i wneud ei waith yn gyflym ac effeithiol.

Karen Sinclair: Yr ydych bron wedi ateb fy nghwestiwn eisoes, Jane. Dymunaf bwysleisio bod amser yn hanfodol. Os bydd

protracted delay, staff will start to look elsewhere for employment and the service will implode.

Jane Hutt: Yes, I think I covered that in response to Ann.

Lorraine Barrett: My question is about the assets and grant money that have been paid from statutory bodies to the society. What can be done to ensure that those assets and share of that grant money stays in Wales and is not clawed back by the society?

Jane Hutt: I made it clear to Ian Sparks when I met him last week that we would expect the assets to stay in Wales. The grants that are provided now will be part of the recovery in whatever way that the taskforce takes this forward. There is also the issue of money that is raised by people for the Children's Society in Wales. We will shortly have Christingle services across Wales, which raise a great deal of money. The strong message to the Children's Society is that that money and the assets must stay in Wales. I hope that the Assembly endorses my making that point strongly to the Children's Society.

oedi maith, bydd y staff yn dechrau edrych yn rhywle arall am waith a bydd y gwasanaeth yn chwalu'n fewnol.

Jane Hutt: Ie, credaf imi grybwyll hynny yn fy ymateb i Ann.

Lorraine Barrett: Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r asedion a'r arian grant a dalwyd gan gyrff statudol i'r gymdeithas. Beth y gellir ei wneud i sicrhau bod yr asedion hynny a'r gyfran o'r arian grant hwnnw yn aros yng Nghymru ac na chânt eu hadennill gan y gymdeithas?

Jane Hutt: Eglurais wrth Ian Sparks pan gyfarfûm ag ef yr wythnos diwethaf y byddem yn disgwyl i'r asedion aros yng Nghymru. Bydd y grantiau a ddarperir yn awr yn rhan o'r adferiad ym mha ffordd bynnag y datblygir hyn gan y tasglu. Mae problem hefyd gyda'r arian a godir gan bobl ar gyfer Cymdeithas y Plant yng Nghymru. Cyn bo hir, bydd gennym wasanaethau Christingle ledled Cymru, sy'n codi llawer iawn o arian. Y neges gref i Gymdeithas y Plant yw bod yn rhaid i'r arian hwnnw a'r asedion aros yng Nghymru. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r pwynt cryf hwn a wnaif i Gymdeithas y Plant.

Datganiad ar Newid Strwythurol yn yr NHS Statement on Structural Change in the NHS

Jane Hutt: I am pleased to make this statement to the Assembly today and to respond to the questions which I know many of you will wish to ask. This statement will provide the basis for the debate that will follow later in the term. I am grateful to my colleague, the Minister for Assembly Business, Andrew Davies, for the enormous efforts that he and his officials have made over recent days to secure as early a date as possible for that debate to take place. [OPPOSITION ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I am pleased to let you know that, subject to the usual procedures of the Assembly, that debate has now been scheduled for 27 November. The redesign of the NHS in Wales is rooted in the White Paper 'Putting Patients First', published in 1998 by the Secretary of State for Wales at that time. It was designed to bring an end to the

Jane Hutt: Mae'n bleser gennyf wneud y datganiad hwn i'r Cynulliad heddiw ac ateb y cwestiynau yr hoffai llawer ohonoch eu gofyn imi, fe wn. Bydd y datganiad hwn yn sail i'r ddadl a fydd yn dilyn yn ddiweddarach yn y tymor. Yr wyf yn ddiolchgar i'm cyd-Aelod, y Trefnydd, Andrew Davies, am yr ymdrech fawr a wnaeth ef a'i swyddogion yn ystod y dyddiau diwethaf i sicrhau'r dyddiad cyntaf posibl i gynnal y ddadl honno [AELODAU GWRTHBLEIDIAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Yr wyf yn falch o nodi y caiff y ddadl honno ei chynnal ar 27 Tachwedd bellach, yn amodol ar weithdrefnau arferol y Cynulliad. Mae gwreiddiau cynllun newydd yr NHS yng Nghymru i'w gweld yn y Papur Gwyn, 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf', a gyhoeddwyd yn 1998 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru bryd hynny. Nod y cynllun oedd rhoi terfyn ar

divisiveness of the internal market. Its key message was that all parts of the NHS must work together to provide good, effective services for patients. Co-operation, not competition, was the watchword.

10:15 a.m.

The existing framework of local government in Wales was seen to provide a suitable and stable base for local action, with local health groups being coterminous with unitary authority boundaries to facilitate joint working. On this basis, 22 local health groups were set up in Wales.

In February 2001, 'Improving Health in Wales – A Plan for the NHS with its partners' was published. This signalled the proposed strengthening of the local health groups to take on new responsibilities for commissioning, securing and delivering healthcare in their localities. At the same time the Assembly would be strengthened to provide a new sense of leadership and direction at the national level. This removed the necessity for health authorities in Wales.

The consultation document, 'Structural Change in the NHS in Wales' was published in July 2001 and the three-month consultative period came to an end on 19 October 2001. A total of 345 responses were received from a wide range of organisations, individuals and representative bodies.

The proposals contained in the consultative document resulted from the work of the Structures Task and Finish Group, which was set up as part of the implementation process for our plan for the NHS. Its membership included representatives from the National Assembly, the NHS, local government and the voluntary sector.

During the consultation, I visited the five health authorities to discuss the proposals with their staff. Open sessions also took place in north, west and south Wales to discuss the background and detail of the structural changes. There has been a wide range of meetings, events and workshops across Wales over the last few months, giving

raniadau'r farchnad fewnol. Ei brif neges oedd bod yn rhaid i bob rhan o'r NHS weithio gyda'i gilydd i roi gwasanaethau da, effeithiol i gleifion. Cydweithredu, nid cystadlu oedd y nod.

Barnwyd bod fframwaith cyfredol llywodraeth leol yng Nghymru yn rhoi sail addas a sefydlog i weithredu'n lleol, ac yr oedd ffiniau grwpiau iechyd lleol yn cyfateb â ffiniau awdurdodau unedol er mwyn hwyluso gweithio ar y cyd. Ar y sail hon, sefydlwyd 22 o grwpiau iechyd lleol yng Nghymru.

Yn Chwefror 2001, cyhoeddwyd 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid'. Yr oedd hwn yn arwydd o'r bwriad i atgyfnerthu'r grwpiau iechyd lleol i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd dros gomisiynu, sicrhau a chyflwyno gofal iechyd yn eu hardaloedd. Ar yr un pryd, câr'r Cynulliad ei atgyfnerthu i roi math newydd o arweiniad a chyfeiriad yn genedlaethol. Yn sgîl y datblygiad hwnnw ni fyddai angen awdurdodau iechyd yng Nghymru.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, 'Newid Strwythurol yn yr NHS yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2001 a daeth y cyfnod ymgynghori tri mis i ben ar 19 Hydref 2001. Cafwyd 345 o ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau, unigolion a chyrrff cynrychioliadol.

Yr oedd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn ffrwyth gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Strwythurau, a sefydlwyd fel rhan o'r broses o roi ein cynllun ar gyfer yr NHS ar waith. Ymhlith aelodau'r grŵp yr oedd cynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol, yr NHS, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, ymwelais â phum awdurdod iechyd i drafod y cynigion â'u staff. Cynhaliwyd sesiynau agored hefyd yn y gogledd, yn y gorllewin ac yn y de i drafod cefndir a manylion y newidiadau strwythurol. Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd, digwyddiadau a gweithdai ledled Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, gan roi

people the opportunity to discuss the proposals, understand the background to the structures, and give their views.

We emerge from the consultation with a renewed determination to create a health service that crafts local solutions for local problems and ensures that those local solutions fit into an all-Wales framework of priorities.

Against that background, I have made the following decisions. Local health groups will be strengthened to become local health boards in each local authority area. These will be the building blocks of the new NHS in Wales. The principle of being coterminous with local authorities is widely regarded as providing very important advantages. The 22 local health boards will become statutory bodies to give them the power and status to discharge their responsibilities.

The partnership between local health boards and local authorities is critical. The Assembly Government is seeking primary legislative provision to place a duty on each local council and each local health board, along with their partners, to jointly formulate and implement a strategy for the health and wellbeing of members of the public in the local authority's area. That will include agreeing joint investment priorities and joint planning of interface services, based on a joint assessment of need.

The consultation emphasised the importance of outlining the steps, taken over the next 18 months, to prepare local health boards for their new roles and functions in order to be confident that they will be fit for purpose. These purposes will include: assessing the health needs of their areas and the effectiveness of local health systems; securing and providing primary health care; securing community and intermediate care; and securing secondary care. Boards will also have responsibility for addressing health and access inequalities in their communities. I shall return to the development programme for local health boards and partnerships later in this statement.

cyfle i bobl drafod y cynigion, i ddeall cefndir y strwythurau, ac i fynegi barn.

Ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori yr ydym yn benderfynol o'r newydd o greu gwasanaeth iechyd sy'n llunio atebion lleol i broblemau lleol ac yn sicrhau bod yr atebion lleol hynny yn unol â fframwaith blaenoriaethau i Gymru gyfan.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, gwneuthum y penderfyniadau canlynol. Caiff y grwpiau iechyd lleol eu hatgyfnerthu a'u datblygu'n fyrddau iechyd lleol ym mhob ardal awdurdod lleol. Y byrddau fydd conglfeini'r NHS newydd yng Nghymru. Credir yn gyffredinol fod yr egwyddor o bennu ffiniau sy'n cyfateb â ffiniau awdurdodau lleol yn fanteisiol iawn. Bydd y 22 o fyrddau iechyd lleol yn dod yn gyrff statudol er mwyn iddynt gael y pŵer a'r statws i ymgymryd â'u cyfrifoldebau.

Mae'r bartneriaeth rhwng y byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol yn holl bwysig. Mae Llywodraeth y Cynulliad am ddarpariaeth deddfwriaeth sylfaenol a fydd yn rhoi dyletswydd ar bob cyngor lleol a phob bwrdd iechyd lleol, ynghyd â'uartneriaid, i lunio a gweithredu strategaeth ar y cyd er iechyd a lles aelodau'r cyhoedd yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd hynny yn cynnwys cytuno ar flaenoriaethau buddsoddi ar y cyd a chydgyllunio gwasanaethau rhyngwyneb, yn seiliedig ar asesiad o anghenion ar y cyd.

Pwysleisiodd yr ymgynghoriad pa mor bwysig yw nodi'r camau, i'w cymryd dros y 18 mis nesaf, i baratoi byrddau iechyd lleol ar gyfer eu rolau a'u swyddogaethau newydd er mwyn bod yn hyderus y gallant fod yn addas i'r diben. Ymhlith y dibenion hyn fydd: asesu anghenion iechyd eu hardaloedd ac effeithiolrwydd systemau iechyd lleol; sicrhau a darparu gofal iechyd sylfaenol; sicrhau gofal cymuned a gofal canolraddol; a sicrhau gofal eilaidd. Bydd y byrddau hefyd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran iechyd a mynediad yn eu cymunedau. Dychwelaf at y rhaglen ddatblygu ar gyfer byrddau iechyd lleol a phartneriaethau yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

The membership of boards will need to be widened to include representation from local authority elected members. The voice of patients will be strengthened through voluntary and lay representation. The membership will also contain an executive team, which will include public health and other professional staff. It will also provide an additional place for a professional allied to medicine, and a place for a nurse, in addition to an executive board place for a nursing director. This would result in a board that would have a wider and more inclusive membership than at present.

Members of the local health boards will need to be selected in a way that secures the legitimacy of representation. The boards must be required to conduct business in public and to strengthen engagement with the public.

The consultation raised concerns about the concept of local health boards consortia, as outlined in the original document, and therefore I have decided not to pursue that proposal.

A range of consultees favoured a model in which local health boards, local authorities, the trusts and the voluntary sector worked together, to ensure joined-up and, where appropriate, integrated commissioning arrangements for hospital and community services within local areas. I intend to ensure that local organisations work together in this way to guarantee that the best possible range and quality of services are delivered for their local populations through effective and value-for-money commissioning. In the first stages, three regional Assembly offices will oversee this process to ensure consistent and paced development of such joint working. I will say more about these offices later.

On the basis of such a model, there will be 10-12 local partnerships throughout Wales, most often consisting of two local health boards, two local authorities and one NHS trust. Bringing people together in this way—to ensure joint provision where patient flows

Bydd angen ehangu aelodaeth y byrddau i gynnwys cynrychiolaeth o aelodau etholedig yr awdurdodau lleol. Caiff llais y cleifion ei atgyfnerthu drwy gynrychiolwyr gwirfoddol a lleyg. Ymhlith yr aelodau bydd tîm gweithredol hefyd, a fydd yn cynnwys staff iechyd cyhoeddus ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd lle ychwanegol hefyd i weithiwr proffesiynol sy'n gysylltiedig â meddygaeth, a lle i nyrs, yn ychwanegol at y lle ar gyfer cyfarwyddwr nyrsio ar y bwrdd gweithredol. Byddai hyn yn arwain at fwrdd ag iddo aelodaeth ehangach a mwy cynhwysol nag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Bydd angen i aelodau'r byrddau iechyd lleol gael eu dewis mewn modd sy'n sicrhau natur ddilys y gynrychiolaeth. Rhaid gorfodi'r byrddau i gynnal eu busnes yn gyhoeddus ac i atgyfnerthu eu cysylltiadau â'r cyhoedd.

Codwyd pryderon yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r cysyniad o gonsortia o fyrddau iechyd lleol, fel y'u nodwyd yn y ddogfen wreiddiol, ac felly penderfynais beidio â gweithredu ar y cynnig hwnnw.

Yr oedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid model lle y byddai'r byrddau iechyd lleol, yr awdurdodau lleol, yr ymddiriedolaethau a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd, i sicrhau trefniadau comisiynu cydgysylltiedig, ac integredig lle y bo hynny yn briodol, ar gyfer ysbytai a gwasanaethau cymuned yn yr ardaloedd lleol. Bwriadaf sicrhau bod sefydliadau lleol yn cydweithio yn y ffordd hon i sicrhau y caiff yr ystod orau bosibl o wasanaethau o'r safon orau bosibl eu darparu ar gyfer eu poblogaethau lleol drwy broses gomisiynu effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. Yn ystod y camau cyntaf, bydd tair swyddfa ranbarthol y Cynulliad yn goruchwyllo'r broses hon er mwyn sicrhau bod cydweithio o'r fath yn datblygu'n gyson fesul cam. Dywedaf ragor am y swyddfeydd hyn yn nes ymlaen.

Ar sail model o'r fath, bydd 10-12 o bartneriaethau lleol ledled Cymru, yn cynnwys dau fwrdd iechyd lleol, dau awdurdod lleol ac un ymddiriedolaeth NHS gan amlaf. Bydd dwyn pobl ynghyd yn y ffordd hon—er mwyn sicrhau darpariaeth ar

are similar—will ensure that the trusts' expertise and experience are fully utilised. They will facilitate the development of managed clinical networks and will represent the best provision of services for patients.

It was agreed among those who addressed this issue, that arrangements for Powys should differ from the rest of Wales and that the community trust and the local health boards should join to form one health board for Powys, as outlined in the structures report. The project to bring about that proposal will now proceed.

A small number of pathfinder projects will be considered as a result of proposals from the NHS, which suggest that local health boards assume responsibility for the community services that are currently provided by trusts. Only areas that have volunteered for these projects will be considered for inclusion as pathfinders.

As I said earlier, a number of consultees raised the issue of capacity at local health board and partnership level. They asked whether local health boards and partnerships would be capable of taking on the strengthened duties required of them under the new arrangements. I take that issue seriously. We need to remember that the skills and experience available in the NHS in Wales will continue to be invested in the NHS with the implementation of this plan. We will redistribute those skills and abilities from the health authorities to the local health boards and the Assembly, and, in that way, they will remain available within the whole service.

We must ensure that we have the right people in the right places as soon as possible. We will establish an all-Wales local health board and partnership development team, to sit alongside and complement the implementation team that already exists. Both teams will operate under the direction of the Director of NHS Wales. The development team will include some of the most senior figures in the services in Wales, including

y cyd lle y mae llif y cleifion yn debyg—yn sicrhau y defnyddir arbenigedd a phrofiad yr ymddiriedolaethau i'r eithaf. Byddant yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau clinigol rheoledig ac yn cynnig y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleifion.

Yr oedd pawb a ymdriniodd â'r mater hwn yn gyfôn y dylai'r trefniadau ym Mhowys fod yn wahanol i'r trefniadau yng ngweddill Cymru ac y dylai'r ymddiriedolaeth gymuned a'r byrddau iechyd lleol uno i ffurfio un bwrdd iechyd i Bowys, fel y nodwyd yn yr adroddiad ar strwythurau. Bydd y prosiect i roi'r cynnig hwnnw ar waith yn mynd rhagddo yn awr.

Caiff nifer fach o brosiectau arloesol eu hystyried o ganlyniad i gynigion yr NHS, sy'n awgrymu y dylai'r byrddau iechyd lleol ddod yn gyfrifol am y gwasanaethau cymuned a ddarperir ar hyn o bryd gan yr ymddiriedolaethau. Dim ond ardaloedd sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y prosiectau hyn a gaiff eu hystyried fel rhan o'r prosiectau arloesol.

Fel y dywedais yn gynharach, codwyd mater capasiti ar lefel byrddau iechyd lleol a'r partneriaethau gan nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd a fyddai'r byrddau iechyd lleol a'r partneriaethau yn gallu ymgymryd â'r dyletswyddau ehangach y byddai'n ofynnol iddynt ymgymryd â hwy o dan y trefniadau newydd. Cymeraf y mater hwnnw o ddifrif. Mae angen inni gofio y bydd y sgiliau a'r profiad sydd ar gael yn yr NHS yng Nghymru yn parhau i fod yn rhan o'r NHS ar ôl gweithredu'r cynllun hwn. Byddwn yn ailddosbarthu'r sgiliau a'r medrau hynny o'r awdurdodau iechyd i'r byrddau iechyd lleol a'r Cynulliad, ac, yn y modd hwnnw, byddant yn parhau i fod ar gael o fewn y gwasanaeth cyfan.

Rhaid inni sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y swyddi cywir mor fuan â phosibl. Byddwn yn sefydlu tîm datblygu'r byrddau iechyd lleol a'r partneriaethau i Gymru gyfan, ochr yn ochr â'r tîm gweithredu sy'n bodoli eisoes a chan ategu'r tîm hwnnw. Bydd y ddau dîm yn gweithredu o dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwr NHS Cymru. Bydd y tîm datblygu yn cynnwys rhai o'r swyddogion yn y swyddi uchaf yn y

those with direct experience of the commissioning process, as part of their management skills.

Following this statement, and in advance of the Assembly debate, I will publish a framework development plan, which includes specific milestones to be achieved between now and 1 April 2003. This document will provide a clear blueprint for those in the field, and will form the essential work programme for the development team to build the capacity of local health boards and the partnerships.

At Assembly level, the NHS Directorate's organisation and the range of skills directly available to it will be strengthened.

In order to enhance strategic planning, performance management and other operational functions, Assembly offices will be located in north, mid-west and south Wales. These regional bases will enable the directorate to maintain a visible local presence and they will be an accessible source of information and advice for the local NHS organisations. They will hold lead organisations to account on a daily basis on behalf of the Director of NHS Wales. It will also be particularly important that the directorate involves a full range of professional advice to create and deliver sound policies and strategies. These professionals will require effective support and will draw upon strengthened professional advisory structures within the NHS. The Director of NHS Wales, the Chief Medical Officer and the Chief Nursing Officer will be working closely together to secure this.

Strong representations have been received in favour—

The Deputy Presiding Officer: Order. I apologise for interrupting, but this statement is very long. The Presiding Officer has ruled that statements must be constrained to 1,000 words or 10 minutes. If they are to be long, they should be circulated well in advance, so that proper questioning can ensue. I know that Members want to hear what you have to

gwasanaethau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n meddu ar brofiad uniongyrchol o'r broses gomisiynu, fel rhan o'u sgiliau rheoli.

Yn dilyn y datganiad hwn, a chyn cynnal y ddadl yn y Cynulliad, byddaf yn cyhoeddi cynllun datblygu fframwaith, sy'n cynnwys cerrig milltir penodol i'w cyrraedd cyn 1 Ebrill 2003. Bydd y ddogfen hon yn rhoi glasbrint clir i'r rhai sy'n gweithio yn y maes, ynghyd â rhaglen waith hanfodol i'r tîm datblygu adeiladu capasiti'r byrddau iechyd lleol a'r partneriaethau.

O ran y Cynulliad, caiff sefydliad Cyfarwyddiaeth yr NHS a'r ystod o sgiliau sydd ar gael yn uniongyrchol iddo eu hatgyfnerthu.

Er mwyn gwella cynllunio strategol, rheoli perfformiad a swyddogaethau gweithredol eraill, bwriedir agor swyddfeydd y Cynulliad yn y gogledd, yn y canolbarth a'r gorllewin, ac yn y de. Bydd y swyddfeydd rhanbarthol hyn yn fodd i'r gyfarwyddiaeth gael presenoldeb lleol, gweladwy a byddant yn ffynhonnell hwylus o wybodaeth a chyngor i sefydliadau lleol yr NHS. Ar ran Cyfarwyddwr NHS Cymru byddant yn sicrhau atebolrwydd beunyddiol y sefydliadau arweiniol. Bydd hefyd yn bwysig iawn bod y gyfarwyddiaeth yn cynnwys ystod lawn o gyngor gan weithwyr proffesiynol i lunio a chyflwyno polisiau a strategaethau cadarn. Bydd angen cymorth effeithiol ar y gweithwyr proffesiynol hyn a byddant yn defnyddio strwythurau ymgynghorol proffesiynol wedi'u hatgyfnerthu o fewn yr NHS. Bydd Cyfarwyddwr NHS Cymru, y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau hyn.

Cafwyd sylwadau sy'n gryf o blaid—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ymddiheuraf am dorri ar eich traws, ond mae'r datganiad hwn yn hir iawn. Dyfarnodd y Llywydd na ddylai datganiadau fod yn fwy na 1,000 o eiriau neu barhau am fwy na 10 munud. Os bwriedir rhoi datganiad hir, dylid ei ddosbarthu ymhell ymlaen llaw, fel y gall yr Aelodau ofyn cwestiynau yn ei gylch mewn

say, but we are abusing our procedures if statements last longer than 10 minutes. Your statement is already running to more than 1,000 words, it must be approaching 2,000 words. I do not want to stop you, I would like you to finish, but in future we must try to keep to our procedures.

10:25 a.m.

Jane Hutt: This is an important statement, and I am grateful for the time—

The Deputy Presiding Officer: Order. All Assembly proceedings are important.

Jane Hutt: It is vital that the National Assembly has the capacity to provide the leadership for this important area of service development and delivery. There will be a primary care directorate at the Assembly supported by a reference group representing professional interests.

I also recognise the importance of ensuring that hospital and community-based healthcare services are recognised in the new NHS directorate arrangements. A lead director at Assembly level will be nominated to represent these interests, supported by a reference group. Lead directors will also be nominated for mental health and children's health services at Assembly level to strengthen policy and strategy, and to ensure their effective implementation.

The professional advisory machinery as a whole will be renewed and refreshed and will be well positioned in the new structural arrangements. Medical committees—based on the existing district medical committees—will provide an important means of engaging medical staff in secondary as well as primary care for policy planning and decision-making processes at national, regional and local levels.

modd priodol. Gwn fod yr Aelodau am glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud, ond byddwn yn mynd yn groes i'n gweithdrefnau os bydd datganiadau yn parhau am fwy na 10 munud. Mae eich datganiad eisoes wedi mynd dros 1,000 o eiriau, rhaid ei fod yn tynnu at 2,000 o eiriau. Nid wyf am roi terfyn ar eich datganiad, hoffwn pe baech yn ei orffen, ond yn y dyfodol rhaid inni geisio cadw at ein gweithdrefnau.

Jane Hutt: Mae hwn yn ddatganiad pwysig, ac yr wyf yn ddiolchgar am yr amser—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae pob un o drafodion y Cynulliad yn bwysig.

Jane Hutt: Mae'n hollbwysig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu rhoi arweiniad yn y maes pwysig hwn o ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau. Bydd cyfarwyddiaeth gofal sylfaenol yn y Cynulliad, wedi'i hategu gan grŵp cyfeirio a fydd yn cynrychioli buddiannau gweithwyr proffesiynol.

Cydnabyddaf hefyd pa mor bwysig ydyw i sicrhau y caiff gwasanaethau gofal iechyd mewn ysbytai ac yn y gymuned eu cydnabod o fewn trefniadau newydd Cyfarwyddiaeth yr NHS. Caiff cyfarwyddwr arweiniol ar lefel y Cynulliad ei enwebu i gynrychioli'r buddiannau hyn, gyda chefnogaeth grŵp cyfeirio. Caiff cyfarwyddwyr arweiniol eu henwebu hefyd ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau iechyd plant yn y Cynulliad i atgyfnerthu polisïau a strategaeth, a sicrhau y cânt eu gweithredu'n effeithiol.

Caiff y systemau ymgynghorol proffesiynol eu hadnewyddu a'u hadfer yn eu cyfanrwydd a bydd iddynt safle da o fewn y trefniadau strwythurol newydd. Bydd pwyllgorau meddygol—yn seiliedig ar y pwyllgorau meddygol dosbarth sy'n bodoli eisoes—yn ffordd bwysig o gysylltu â staff meddygol ym maes gofal eilaidd yn ogystal â gofal sylfaenol o ran y prosesau ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

The public health capacity will be strengthened in Wales. At Assembly level this will be achieved under the leadership of the Chief Medical Officer, and thereafter NHS public health services will be organised on an all-Wales basis, located within an NHS trust but with accountability to the Chief Medical Officer. Responsibility for the health of the population and for meeting statutory and operational requirements will be at local health board level. The Wales Centre for Health will provide an independent focus for the development and support of public health practice in all sectors and partner organisations.

I also intend to strengthen the role currently played by the Specialist Health Services Commission for Wales. In the reformed health service in Wales, the commission will continue to provide an all-Wales, arm's-length, commissioning body, dealing with tertiary and other highly specialised acute services. At present, the commission operates through a board of representatives from the constituent health authorities, but after reorganisation it will be constituted of regional representatives from local health boards, trusts and the National Assembly.

In addition to securing tertiary services, the commission will provide advice to the NHS in Wales in relation to more specialised secondary and regional services commissioning. It will continue to oversee these areas, through advice and guidance, for the post April 2003 bodies.

In addition, the commission will be strengthened to provide dedicated guidance, support and facilitation more generally in relation to acute services commissioning. Where, for example, difficult issues need determination, the commission will be able to provide a first source of arm's-length, independent advice and guidance.

Finally, the Commission will be strengthened to provide a direct input to the phased organisational development plan for local health boards and partnerships to which I referred earlier.

Atgyfnerthir capasiti iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Yn y Cynulliad, caiff hyn ei gyflawni o dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol, a wedi hynny caiff gwasanaethau iechyd cyhoeddus yr NHS eu trefnu ar sail Cymru gyfan, wedi'u lleoli o fewn ymddiriedolaeth NHS ond yn atebol i'r Prif Swyddog Meddygol. Y byrddau iechyd lleol fydd yn gyfrifol am iechyd y boblogaeth ac am gyflawni gofynion statudol a gweithredol. Bydd Canolfan Iechyd Cymru yn gyfrwng annibynnol o ddatblygu a chefnogi arferion iechyd cyhoeddus ym mhob sector ac ym mhob sefydliad partner.

Bwriadaf hefyd atgyfnerthu rôl bresennol Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. O fewn y gwasanaeth iechyd diwygiedig yng Nghymru, bydd y comisiwn yn parhau i fod yn gorff comisiynu hyd braich i Gymru gyfan, sy'n ymdrin â gwasanaethau trydyddol a gwasanaethau aciwt arbenigol iawn eraill. Ar hyn o bryd, mae'r comisiwn yn gweithredu drwy fwrdd o gynrychiolwyr yr awdurdodau iechyd sy'n rhan ohono, ond ar ôl ad-drefnu, bydd yn cynnwys cynrychiolwyr rhanbarthol o'r byrddau iechyd lleol, yr ymddiriedolaethau a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn ogystal â sicrhau gwasanaethau trydyddol, bydd y comisiwn yn rhoi cyngor i'r NHS yng Nghymru ar y gwaith o gomisiynu gwasanaethau eilaidd mwy arbenigol a gwasanaethau rhanbarthol. Bydd yn parhau i oruchwylio'r meysydd hynny, ar ffurf cyngor a chanllawiau, o ran y cyrff a fydd yn gweithredu ar ôl Ebrill 2003.

Hefyd, caiff y comisiwn ei atgyfnerthu i roi canllawiau penodol, i gefnogi ac i hwyluso yn fwy cyffredinol ym maes comisiynu gwasanaethau aciwt. Er enghraifft, pan fo angen gwneud penderfyniad ar faterion anodd, bydd y comisiwn mewn sefyllfa i roi cyngor a chanllawiau annibynnol, hyd braich yn y lle cyntaf.

Yn olaf, caiff y Comisiwn ei atgyfnerthu i gyfrannu'n uniongyrchol at y cynllun datblygu sefydliadau fesul cam ar gyfer y byrddau iechyd lleol a'r partneriaethau y cyfeiriais atynt yn gynharach.

In addition to the discussions held at the Health and Social Services Committee last week, and at the debates which have taken place over the past nine months, I am grateful to all those who have given the time and commitment to contribute to this important debate, and for the range and quality of responses, given that will play a vital part in the formulation of the decisions on the way forward.

I will finish with extracts from two of the many positive responses which I have received in the past few days which sum up what the partnership Government is seeking to achieve in Wales. These are the words of the Community Practitioners' and Health Visitors' Association:

'We can now begin to build a better health service in Wales that is able to put the patient at the heart of the organisation and deliver the wider public health agenda that is needed to tackle the poor health of the people of Wales.'

These are the words of John Lease Jones, Chair of the Association of Welsh Community Health Councils:

'We welcome the intention to strengthen Local Health Groups into Local Health Boards. We think that the main planning and development of NHS services will be planned at a local forum which will enable the public to understand and participate in the provision of their own health care in a more comprehensive way than before.'

We believe that strengthening the primary care perspective and enabling joint working between the NHS and Social Services will benefit patients, the majority of whom receive all their health care in the community, and for whom the development of 'joined-up' provision is imperative.

These are just two of many responses to which I have listened, and which show how well our reforms are already understood and appreciated in the widest health community in Wales. I recommend them to the Assembly this morning.

David Lloyd: Ychydig o funudau sydd gennyf i siarad fel llefarydd yr wrthblaid ar iechyd. Dadl a ddylai fod wedi ei chynnal heddiw, oherwydd ni allaf ond gofyn cyfres o gwestiynau yn dilyn datganiad. Mae hynny'n hollol annigonol.

Yn ogystal â'r trafodaethau a gafwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf, ac yn y dadleuon a gynhaliwyd yn ystod y naw mis diwethaf, yr wyf yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser ac a ymrwymodd i gyfrannu at y ddadl bwysig hon, ac am amrywiaeth a safon yr ymatebion, o gofio y byddant yn chwarae rhan hollbwysig wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Gorffennaf drwy ddyfynnu dau o'r ymatebion cadarnhaol niferus sydd wedi dod i law yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf sy'n crynhoi'r hyn y mae'r Llywodraeth bartneriaeth yn ceisio ei gyflawni yng Nghymru. Dyma eiriau Cymdeithas yr Ymarferwyr Cymuned a'r Ymwelwyr Iechyd:

Dyma eiriau John Lease Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru:

Credwn y bydd atgyfnerthu gofal sylfaenol a hwyluso'r NHS a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gydweithio yn fanteisiol i'r cleifion, y caiff y rhan fwyaf ohonynt eu holl ofal iechyd yn y gymuned, ac y mae datblygu darpariaeth 'gydgysylltiedig' yn hanfodol iddynt.

Dau yn unig o'r ymatebion lu y gwrandewais arnynt yw'r rhain, ymatebion sy'n dangos pa mor dda y mae'r gymuned iechyd yn gyffredinol yng Nghymru eisoes yn deall ein diwygiadau ac yn eu gwerthfawrogi. Fe'u cymeradwyaf i'r Cynulliad y bore yma.

David Lloyd: I only have a few minutes to speak as opposition health spokesman. We should be holding a debate today, because I can only ask a series of questions following a statement. That is wholly inadequate.

O gofio'r pum ailstrwythuro a fu eisoes yn y gwasanaeth iechyd yn y degawd diwethaf, mae'r gwasanaeth yn ysu am sefydlogrwydd. Mae'n rhaid i unrhyw ailstrwythuro wneud pethau'n symlach a haws i'w deall, yn ogystal ag arbed arian a gwella'r gwasanaeth i gleifion. Nid yw'r hyn a glywsom y bore yma yn cyflawni'r un o'r rheini.

Byddai un corff cenedlaethol, a allai bennu triniaethau a chael gwared ar loteri triniaeth yn ôl cod post, yn gam sylweddol ymlaen. Dyna gred Plaid Cymru, ond nid dyna a glywsom y bore yma.

I am aghast. Following the Liberal Democrats' revelations, I expected some magnificent new proposals and that things would be transformed—obviously not.

However, I must confine my attention to asking questions. Will this new national body end the postcode lottery in treatment, where currently some treatments are only available in certain parts of Wales? Are you suggesting that all the complex structures that we first heard about last week will remain, except that more will be added this week? We have an all-Wales local health board partnership and an extension of the specialised health services commission—what does it all mean? We still need a debate. Having a debate on 27 November is better than not having one at all, but a debate will be held on this in Westminster next Tuesday—what price devolution? Nine months and nine taskforces got us to last week's proposals. They were complex proposals last week, and they are even more complex now. They were expensive and would not have stopped the postcode lottery then, and they will be expensive and will not stop that lottery now.

The Lib Dems have apparently got us to this position. The tail wags the dog again, although last week Peter Black was unaware of their health policy. Who leads on health policy, the Lib Dems or Labour? Must discussions in the coalition be carried out in the press? Is there no decorum in the

Given that the health service has already been restructured five times in the last decade, the service is crying out for stability. Any restructuring must make things simpler and easier to understand, as well as saving money and improving the service to patients. The changes announced this morning do not achieve any of these objectives.

One national body, that could determine treatments and put an end to the postcode lottery, would be a huge step forward. That is Plaid Cymru's opinion, but that is not what was announced this morning.

Yr wyf yn synnu. Yn dilyn yr hyn a ddatgelodd y Democratiaid Rhyddfrydol, yr oeddwn yn disgwyl rhai cynigion newydd gwych ac y byddai pethau yn cael eu trawsnewid—nid felly mae'n amlwg.

Fodd bynnag, rhaid imi ganolbwyntio ar ofyn cwestiynau. A fydd y corff cenedlaethol newydd hwn yn cael gwared ar loteri triniaeth yn ôl cod post, lle mai dim mewn rhai mannau o Gymru y mae triniaethau penodol ar gael ar hyn o bryd? A ydych yn awgrymu y bydd yr holl strwythurau cymhleth y clywsom amdanynt am y tro cyntaf yr wythnos diwethaf yn aros, ond y caiff rhagor eu hychwanegu yr wythnos hon? Soniwch am bartneriaeth Cymru gyfan rhwng byrddau iechyd lleol a chomisiwn gwasanaeth iechyd arbenigol estynedig—beth yw ystyr hyn oll? Mae angen dadl o hyd. Mae cynnal dadl ar 27 Tachwedd yn well na dim dadl o gwbl, ond cynhelir dadl ar hyn yn San Steffan ddydd Mawrth nesaf—pa werth sydd i ddatganoli yn awr? Ffrwyth gwaith naw mis a naw tasglu oedd cynigion yr wythnos diwethaf. Yr oeddent yn gynigion cymhleth yr wythnos diwethaf, ac yn awr maent yn fwy cymhleth byth. Yr wythnos diwethaf yr oeddent yn gostus ac ni fyddent wedi cael gwared ar loteri'r cod post, parhau yn gostus y maent ac ni chânt wared ar y loteri honno o hyd.

Y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n gyfrifol am y sefyllfa sydd ohoni, mae'n debyg. Unwaith eto mae'r cynffon yn siglo'r ci, er nad oedd Peter Black yn ymwybodol o'u polisi ar iechyd yr wythnos diwethaf. Pwy sy'n arwain o ran polisi iechyd, y Democratiaid Rhyddfrydol ynteu Lafur? A

Government?

oes rhaid i drafodaethau yn y glymblaid gael eu cynnal yn y wasg? Onid oes unrhyw urddas gan y Llywodraeth?

Finally, the core business of the NHS is treating people. We cannot and must not be deflected from that vital issue. When will Labour policy change to refocus on the dire need to increase the numbers of beds, nurses and doctors?

Yn olaf, busnes craidd yr NHS yw trin pobl. Ni allwn ac ni ddylem golli golwg ar y mater hanfodol hwnnw. Pryd y bydd polisi Llafur yn newid i ganolbwyntio ar yr angen dybryd i gynyddu nifer y gwelyau, nifer y nyrsys a nifer y meddygon?

Brian Gibbons: That has all been done.

Brian Gibbons: Gwnaethpwyd hynny oll.

David Lloyd: It has not been done yet, by a long chalk, Brian: we have had 130 beds instead of 6,000. Plaid Cymru has always been against the private finance initiative, and I welcome the Minister's u-turn on that. A few weeks ago, public funding for hospitals in Porthmadog and Rhondda was announced. Plaid Cymru's policy is to have one national commissioning body for Wales. I would welcome any u-turn on that, but it is not clear from today's statement whether we have had one or not. Plaid Cymru's policy is to focus on increasing capacity to treat more people.

David Lloyd: Ni wnaethpwyd eto, o bell ffordd, Brian: cafwyd 130 o welyau yn lle 6,000. Mae Plaid Cymru bob amser wedi bod yn erbyn y fenter cyllid preifat, a chroesawaf dro pedol y Gweinidog ar hynny. Ychydig o wythnosau yn ôl, cyhoeddwyd arian cyhoeddus ar gyfer ysbytai ym Mhorthmadog a'r Rhondda. Polisi Plaid Cymru yw sefydlu un corff comisiynu cenedlaethol i Gymru. Byddwn yn croesawu unrhyw dro pedol ar hynny, ond nid yw'n amlwg yn y datganiad heddiw a oes gennym un ai peidio. Polisi Plaid Cymru yw canolbwyntio ar gynyddu capasiti er mwyn trin mwy o bobl.

As a doctor, I came into politics to try to improve matters for my patients, and for patients everywhere. Huge challenges remain. The internal market remains, because trusts are untouched, waiting lists are increasing at an appalling rate. We need firm leadership and a clear vision. We owe it to patients to change the present policy, be it Labour policy or Lib Dem policy. Whichever policy it is, it is patently failing. We need to deal with the horrendous health statistics that beset Wales.

Fel meddyg, euthum yn wleidydd i geisio gwella materion i'm cleifion, ac i gleifion ym mhob man. Erys heriau enfawr o hyd. Erys y farchnad fewnol, am nad amherir ar yr ymddiriedolaethau, mae cynnydd enbyd yn y rhestrau aros o hyd. Mae angen arweiniad cadarn a gweledigaeth glir. Mae dyletswydd arnom i'r cleifion i newid y polisi presennol, boed hynny yn bolisi Llafur neu'n bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol. Pa blaid bynnag piau'r polisi, mae'n amlwg nad yw'n llwyddo. Mae angen inni ymdrin â'r ystadegau iechyd erchyll sydd gan Gymru.

These structures are a missed opportunity. They are complex, expensive and will not end the postcode lottery. Let us have simplicity, a strong national body for commissioning, strengthened local health groups with the capacity to perform for our people. We need that now.

Mae'r strwythurau hyn yn gyfle coll. Maent yn gymhleth, yn gostus ac ni chânt wared ar loteri'r cod post. Gadewch inni gael strwythur syml, corff cenedlaethol cryf ar gyfer comisiynu, grwpiau iechyd lleol wedi'u hatgyfnerthu a chanddynt y gallu i gyflawni dros ein pobl. Mae angen hynny arnom yn awr.

The Deputy Presiding Officer: Before I ask the Minister to reply, I must say that you spoke for too long, as did the Minister. You are a health spokesperson, and I will call two

Y Dirprwy Lywydd: Cyn imi ofyn i'r Gweinidog ymateb, rhaid imi ddweud ichi siarad yn rhy hir, fel y gwnaeth y Gweinidog. Yr ydych yn llefarydd ar iechyd, a galwaf

others. They are allowed to make statements before asking their questions. I appeal to party spokespersons to be brief in the expositions to their questions, and to ask them succinctly. I appeal for brief replies where possible.

10:35 a.m.

Jane Hutt: I will attempt to reply, although it was not really a question; it was more of a statement.

I am surprised, Dai, that Plaid Cymru wants to set up a quango—a quango for Wales: publicly appointed people to do what we were elected to do. The Assembly was established to provide a strategic direction. This is about having confidence in primary care staff, which includes local authority members, pharmacists, nurses and general practitioners like you, Dai. These are the people who will create, shape and deliver the health service that will meet the needs of patients in Wales. The Specialist Health Services Commission will continue its work; it will not be changed. We are strengthening local health groups and the Specialist Health Services Commission so that they continue to deliver the important tertiary services that provide essential support at an all-Wales level. You must have confidence in the power of communities and the voice of patients, as well as in the Assembly.

The Deputy Presiding Officer: I call on Peter Black to speak.

Dafydd Wigley: Oh my God, here we go. [*Laughter.*]

Peter Black: I feel the same when Dafydd Wigley gets up to speak.

Will you join me in congratulating Dai Lloyd and Plaid Cymru: never has a party with so few ideas achieved so much hype with so little action? He has conducted a campaign in the press without even making a submission to the consultation process. His press releases are as bewildering as his cheek.

The Liberal Democrats' approach to the NHS

ddau arall. Cânt wneud datganiad cyn gofyn eu cwestiynau. Apeliaf ar lefarwyr y pleidiau i fod yn gryno wrth draethu eu cwestiynau, ac i'w gofyn yn gryno. Apeliaf am atebion cryno lle y bo modd.

Jane Hutt: Ceisiaf roi ateb, er nad cwestiwn ydoedd mewn gwirionedd; yr oedd yn debycach i ddatganiad.

Synnaf, Dai, fod Plaid Cymru am sefydlu cwango—cwango i Gymru: pobl a benodir drwy benodiadau cyhoeddus i wneud yr hyn y cawsom ein hethol i'w wneud. Sefydlwyd y Cynulliad i roi cyfeiriad strategol. Mae a wnelo hyn ag ymddiried mewn staff gofal sylfaenol, sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol, fferyllwyr, nyrsys a meddygon teulu fel chi, Dai. Dyma'r bobl a fydd yn creu, yn llunio ac yn cyflwyno'r gwasanaeth iechyd a fydd yn diwallu anghenion cleifion yng Nghymru. Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol yn parhau â'i waith; ni chaiff ei newid. Yr ydym yn atgyfnerthu'r grwpiau iechyd lleol a'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol fel y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau trydyddol pwysig sy'n rhoi cymorth hanfodol ar lefel Cymru gyfan. Rhaid ichi ymddiried yng ngrym cymunedau a llais y cleifion, ac yn y Cynulliad hefyd.

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar Peter Black i siarad.

Dafydd Wigley: Duw a'n helpo. [*Chwerthin.*]

Peter Black: Teimlaf yr un fath pan fydd Dafydd Wigley yn codi ar ei draed i siarad.

A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Dai Lloyd a Phlaid Cymru: ni chafodd plaid erioed a chanddi gyn lleied o syniadau gymaint o sylw am gyn lleied o weithredoedd? Mae Dai Lloyd wedi cynnal ymgyrch yn y wasg heb hyd yn oed ymdrafferthu i ymateb i'r broses ymgynghori. Mae ei ddatganiadau i'r wasg yr un mor annealladwy â'i haerllugrwydd.

Mae ymagwedd y Democratiaid Rhyddfrydol

structure reform has been based on principle. [*Laughter.*] It is the same principle applied by our Labour partners: the wish to strengthen the local and the all-Wales strategic approach to commissioning health services. We are therefore pleased to see the existing 22 local health groups developed into local health boards.

Our concerns were based on the practicalities of commissioning secondary health services and enforcing local health boards to work in partnership. As you know, partnerships are not always easy or comfortable, and they demand listening and commitment on both sides. Our concern also was that, as you indicated in Committee last week, the local health board partnerships would not always work and there would, on occasion, be deadlock, disagreement and parochial inertia. Our further concern was that such problems would always lead to calls for you to intervene. I am pleased that you have acknowledged those concerns and responded positively.

Your decision to reconstitute the Specialist Health Services Commission as an arm's-length, all-Wales body, instead of taking it into the Assembly as originally envisaged, is greatly welcomed. The decision to strengthen the commission so that it can facilitate the partnerships and provide dedicated guidance and support to them on commissioning secondary services is also welcome. Change can be phased in sensibly. We need to see the role of this important new body fleshed out in the all-Wales development plan and in the continuing legislative process. Will you outline a timescale for that?

Jane Hutt: As you said, these reforms have been based on the principle that we want to see at work in Wales: local solutions to local needs and problems within an all-Wales framework of priorities. That is what the Assembly is signed up to and there is strong support in the Chamber for that. A total of 353 organisations and people have contributed to the decisions that I have

tuag at ddiwygio strwythur yr NHS yn seiliedig ar egwyddor. [*Chwerthin.*] Yr un egwyddor ag y mae ein partneriaid Llafur yn ei chymhwysu: y dymuniad i atgyfnerthu ymagwedd strategol Cymru gyfan tuag at gomisiynu gwasanaethau iechyd. Felly yr ydym yn falch o weld y bydd y 22 o grwpiau iechyd lleol presennol yn datblygu yn fyrddau iechyd lleol.

Seiliwyd ein pryderon ar ymarferoldeb comisiynu gwasanaethau iechyd eilaidd a gorfodi byrddau iechyd lleol i weithio mewn partneriaeth. Fel y gwyddoch, nid yw partneriaethau yn bethau hawdd na chyfforddus bob amser, ac maent yn hawlio gwrandawriad ac ymrwymiad ar y ddwy ochr. Yr oeddem yn pryderu hefyd, fel yr awgrymasoch yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf, na fyddai partneriaethau'r byrddau iechyd lleol bob amser yn llwyddo ac y byddai, ar adegau, anghydfod, anghytuno a diffyg gweithredu yn lleol. Pryder arall oedd gennym oedd y byddai problemau o'r fath yn arwain at sefyllfa lle y byddai pobl yn galw arnoch i ymyrryd bob amser. Yr wyf yn falch eich bod wedi cydnabod y pryderon hynny ac wedi ymateb mewn modd cadarnhaol.

Mae croeso mawr i'ch penderfyniad i ailsefydlu'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol fel corff hyd braich i Gymru gyfan, yn hytrach na'i ymgorffori yn y Cynulliad yn ôl y bwriad gwreiddiol. Croesewir hefyd y penderfyniad i atgyfnerthu'r comisiwn fel y gall hwyluso'r partneriaethau a rhoi canllawiau penodol iddynt a'u cynorthwyo i gomisiynu gwasanaethau eilaidd. Gellir newid y strwythur yn synhwyrol fesul cam. Mae angen inni ddatblygu rôl y corff newydd hollbwysig hwn yn y cynllun datblygu i Gymru gyfan ac yn y broses ddeddfwriaethol sy'n mynd rhagddi. A wnewch chi nodi amserlen ar gyfer hynny?

Jane Hutt: Fel y dywedasoch, mae'r diwygiadau hyn yn seiliedig ar yr egwyddor yr ydym am ei gweithredu yng Nghymru: atebion lleol i anghenion a phroblemau lleol o fewn fframwaith blaenoriaethau i Gymru gyfan. Dyna'r hyn y cytunodd y Cynulliad arno ac mae cefnogaeth gref yn y Siambr o'i blaid. Cyfrannodd 353 o sefydliadau ac unigolion at y penderfyniadau a nodais

outlined today. It is sad that Members have undermined my response because that, in turn, undermines the people who have worked hard over the past nine months to shape and turn that principle into action. It is about enabling us to build capacity as we strengthen local health groups into local health boards, so that they can work in partnership. That is why we will have a statutory duty to promote partnership. It is the lifeblood of devolution in Wales.

I can assure Peter, and other Members, that the Specialist Health Services Commission, which plays a key role in commissioning services to tackle coronary heart disease, for example, will continue in its role, together with the other tertiary services, and lend its expertise in the development of the local health boards. The Specialist Health Services Commission's board will comprise of stakeholders, namely the local health boards, the trusts and the Assembly. That is the right direction with the local and national bodies working together.

David Melding: Despite all the hype in the press, seemingly generated by the Liberal Democrats, the truth is that nothing has changed fundamentally. Five health authorities go, 22 local health boards come in and they will deal with commissioning. All that has happened is that you have added yet one more level of organisation to the Byzantine tangle surrounding these proposals in a pale attempt to make the unworkable last a little longer. Do you believe that 22 local health boards are fit for the purpose of commissioning primary care while providing the same primary care that they commission; commissioning community healthcare while some of them will also provide the same community healthcare that they commission—in time, if that part is successful it will be extended—and commission secondary care too? Those will be their functions as far as I can work out from your statement. These are remarkable powers not held by one organisation since the early nineties. It is shocking for you not to predict the conflicts of interest that could arise from such functions being performed by one body. There is also the inevitable

heddiw. Mae'n drist bod yr Aelodau wedi tanseilio fy ymateb am fod hynny, yn ei dro, yn tanseilio'r bobl a fu'n gweithio mor galed yn ystod y naw mis diwethaf i lunio'r egwyddor honno a'i rhoi ar waith. Y nod yw ein galluogi i gynyddu capasiti wrth inni atgyfnerthu grwpiau iechyd lleol yn fyrddau iechyd lleol, fel y gallant weithio mewn partneriaeth. Dyna pam y bydd gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo partneriaeth. Dyna enaid datganoli yng Nghymru.

Gallaf roi sicrwydd i Peter, a'r Aelodau eraill, y bydd y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol, sy'n chwarae rôl allweddol wrth gomisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â chlefyd y galon, er enghraifft, yn parhau â'i rôl, ar y cyd â'r gwasanaethau trydyddol eraill, ac yn defnyddio ei arbenigedd yn y gwaith o ddatblygu byrddau iechyd lleol. Bydd bwrdd y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol yn cynnwys rhanddeiliaid, sef y byrddau iechyd lleol, yr ymddiriedolaethau a'r Cynulliad. Dyna'r cyfeiriad cywir: y cyrff lleol a'r cyrff cenedlaethol yn cydweithio.

David Melding: Er gwaethaf yr holl sylw yn y wasg, a grëwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn ôl pob golwg, y gwir amdani yw nad oes dim wedi newid yn y bôn. Ceir gwared ar bum awdurdod iechyd, cyflwynir 22 o fyrddau iechyd lleol a hwy a fydd yn comisiynu gwasanaethau. Y cyfan a ddigwyddodd yw eich bod wedi ychwanegu un haen sefydliadol arall i'r dryswch mawr sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn mewn ymgais wan i weithredu'r hyn na ellir ei weithredu am ychydig yn hwy. A gredwch fod y 22 o fyrddau iechyd lleol yn ateb y diben o ran comisiynu gofal sylfaenol tra'n darparu yr un gofal sylfaenol a gomisiynir ganddynt; comisiynu gofal iechyd cymuned tra bod rhai ohonynt hefyd yn darparu yr un gofal iechyd cymuned a gomisiynir ganddynt—ymhen amser, os bydd y rhan honno yn llwyddo, caiff ei hystyngi—a chomisiynu gofal eilaidd hefyd? Y rheini fydd eu swyddogaethau hyd y gwelaf o'ch datganiad. Mae'r rhain yn bwerau nodedig nas delir gan un sefydliad ers dechrau'r naw degau. Mae'n syfrdanol na allwch ragweld y gwrthdaro buddiannau a allai godi os caiff swyddogaethau o'r fath eu cyflawni gan un

problem of these 22 mini health authorities' managerial capabilities.

I must congratulate you on finding two responses to this consultation that actually support you. Will you extend my congratulations to your officials who obviously worked hard to find them? Had they been living during the Second World War they would no doubt have been analysing aerial photographs for minute details in enemy territory. They have done an extraordinary job. I hope you do not think it churlish of me to remind you of the NHS Confederation in Wales's view, representing health sector senior management. Eighty-six per cent of its members do not believe that 22 local health boards can undertake this commissioning and provision. That is how it stood in Committee last week and throughout the consultation period.

Nothing you have said this morning can give the slightest scintilla of confidence. There is no all-Wales health authority, despite trailing a story in the press that the Liberals had negotiated hard for the last 48 hours, and in which a spokesman is quoted as saying that a withdrawal from the partnership was on the table. That is a rather clumsy phrase, but that was the one used. Obviously they have swallowed your quack remedy. I congratulate you on that. Despite all the huffing and puffing from the Liberal spokesman I can assure him that, while he may drink the quack remedy with relish now, it will do nothing to improve his party's objective position because this nonsense cannot be passed unless it votes for it on 27 November. His party will not be allowed to wriggle out by either of the opposition parties. It has a heavy responsibility. There is no all-Wales health authority despite the fact that some long lost cousin has been plucked from obscurity and introduced in the form of this specialist health authority that commissions tertiary services, namely those services that few of us ever need. To emphasise in this way its role in general commissioning is nonsense. You know that it is nonsense, it is not even intended to be effective.

corff. Cyfyd y broblem anochel hefyd o ran gallu rheoli'r 22 o'r awdurdod iechyd bach hyn.

Rhaid imi eich llongyfarch am ddod o hyd i ddau ymateb i'r ymgynghoriad hwn sy'n eich cefnogi. A wnewch chi estyn fy llongyfarchiadau i'ch swyddogion a weithiodd mor ddygn, mae'n amlwg, i ddod o hyd iddynt? Pe baent wedi byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd byddent, yn ddi-os, wedi bod yn dadansoddi lluniau o'r awyr am fân bethau ar diriogaeth y gelyn. Maent wedi gwneud gwaith campus. Gobeithiaf nad ydych yn meddwl fy mod yn anfoesgar wrth eich atgoffa o farn Cydffederasiwn yr NHS yng Nghymru, sy'n cynrychioli uwch reolwyr yn y sector iechyd. Ni chredodd 86 y cant o'i aelodau y gall y 22 o fyrdau iechyd lleol wneud y gwaith hwn o gomisiynu a darparu gwasanaethau. Dyna sut y bu yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf a thrwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Ni all unrhyw beth a ddywedasoeh y bore yma roi'r un gronyn o hyder inni. Nid oes awdurdod iechyd i Gymru gyfan, er gwaethaf y stori yn y wasg bod y Rhyddfrydwyr wedi negodi'n galed yn ystod y 48 awr ddiwethaf, lle dyfynnwyd llefarydd yn dweud bod yr opsiwn o dynnu'n ôl o'r bartneriaeth 'ar y bwrdd'. Mae hwnnw yn ymadrodd clogyrnaidd braidd, ond dyna'r ymadrodd a ddefnyddiwyd. Yn amlwg maent wedi llyncu'ch crachfeddyginiaeth. Fe'ch llongyfarchaf ar hynny. Er gwaethaf holl fygythiadau'r llefarydd Rhyddfrydol, gallaf roi sicrwydd iddo, er ei fod yn llyncu'r grachfeddyginiaeth yn eiddgar yn awr, na fydd yn gwneud dim i wella sefyllfa wrthrychol ei blaid gan na ellir derbyn y ffwlbri hwn oni fydd ei blaid yn pleidleisio drosto ar 27 Tachwedd. Ni chaiff ei blaid gyfle i ddianc o hyn gan y naill wrthblaid na'r llall. Mae cyfrifoldeb mawr arni. Nid oes awdurdod iechyd i Gymru gyfan er gwaethaf y ffaith i'r awdurdod iechyd arbenigol hwn gael ei gyflwyno inni megis rhyw hen berthynas coll sydd newydd ddod i'r golwg, awdurdod iechyd arbenigol sy'n comisiynu gwasanaethau trydyddol, sef y gwasanaethau hynny na fydd eu hangen byth ar fawr neb ohonom. Mae pwysleisio ei rôl ym maes comisiynu cyffredinol yn y ffordd hon yn beth hurt. Gwyddoch fod hynny yn beth hurt,

ni fwriedir iddo fod yn effeithiol hyd yn oed.

I welcome the debate scheduled for 27 November, though I dryly observe that it follows next Tuesday's debate on the principle of the Bill at Westminster. These are the National Assembly's proposals. They will be debated in Parliament in principle before the Assembly debates them. That is not appropriate. The next 12 days leading to that debate will be a crucial time for you. I think that this matter will unravel if those who objected to you last week maintain their objections. There is objectively nothing in this statement that changes the situation. If the objections are maintained and you cannot take the NHS community with you on 27 November, you should do the honourable thing. These changes are a disaster.

10:45 a.m.

Jane Hutt: I am disappointed with David. I thought that his uncharacteristic incoherence and insults in Committee last week would have been tempered by the positive responses that came back to us—I mentioned the emerging conclusions last week—which were based on what Rhodri Morgan and I announced on 2 February for improving health in Wales—but clearly not. However, your insults do not have much effect. I beg you to wait and see how the service responds to my statement today.

I have thought, listened and taken on board not only the concerns of Assembly Members, but also the concerns of those who work at the sharp end. Your comments demean primary care and the partnership, the symbiosis between local authorities and the health service. People need health and social care. They are not interested in structures. You demean the GPs, nurses, pharmacists, dentists, optometrists and patients who say to me that this is the right structure.

You demean the role of the Specialist Health Services Commission for Wales. You demean the role of a body that has come

Croesawaf y ddadl i'w chynnal ar 27 Tachwedd, er y nodaf dan grechweni ei bod yn dilyn y ddadl ddydd Mawrth nesaf ar egwyddor y Mesur yn San Steffan. Cynigion y Cynulliad Cenedlaethol yw'r rhain. Cânt eu trafod mewn egwyddor yn San Steffan cyn i'r Cynulliad eu trafod. Nid yw hynny'n briodol. Bydd y 12 diwrnod nesaf cyn y ddadl honno yn adeg dyngedfennol i chi. Credaf y bydd y mater hwn yn ymddatod os bydd y rhai a wrthwynebodd y cynigion yr wythnos diwethaf yn parhau i'w gwrthwynebu. Nid oes dim, i bob diben, yn y datganiad hwn sy'n newid y sefyllfa. Os bydd gwrthwynebiad o hyd ac os na allwch gael cefnogaeth staff yr NHS ar 27 Tachwedd, dylech ymddwyn yn anrhydeddus. Mae'r newidiadau hyn yn drychinebus.

Jane Hutt: Yr wyf yn siomedig gyda David. Credais y byddai'r ymatebion cadarnhaol sydd wedi dod i law—cyfeiriais at y casgliadau sy'n datblygu yr wythnos diwethaf—yn sgîl yr hyn a gyhoeddwyd gennyf fi a Rhodri Morgan ar 2 Chwefror ar wella iechyd yng Nghymru—wedi gwneud iddo gymedroli'r iaith ffwmdrus a sarhaus anarferol a glywyd ganddo yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf—ond nid felly mae'n amlwg. Fodd bynnag, nid yw eich sarhad yn cael fawr o effaith. Erfyniaf arnoch i aros i weld sut y bydd y gwasanaeth yn ymateb i'm datganiad heddiw.

Yr wyf wedi ystyried, wedi gwrandao ac wedi derbyn nid yn unig bryderon Aelodau'r Cynulliad, ond hefyd bryderon y bobl sy'n gweithio ar y rheng flaen. Mae eich sylwadau yn difrio gofal sylfaenol a'r bartneriaeth, y gydberthynas rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd. Mae angen iechyd a gofal cymdeithasol ar bobl. Nid oes ganddynt ddiddordeb mewn strwythurau. Yr ydych yn difrio'r meddygon teulu, y nyrsys, y fferyllwyr, y deintyddion, yr optomedryddion a'r cleifion sy'n dweud wrthyf mai hwn yw'r strwythur cywir.

Yr ydych yn difrio rôl Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Yr ydych yn difrio rôl corff sydd wedi

forward with the most radical coronary heart disease framework strategy for Wales. You demean the fact that that commission has strengthened services. It has also helped in terms of the difficult sub-regional issues regarding renal services in areas where everybody accepts that a local health board must work in partnership with its trust and neighbours to commission services. However, there are areas that go beyond the remit of the local health boards and, of course, the Specialist Health Services Commission for Wales would have a strengthened and continued role in dealing with those areas. The stakeholders of the Specialist Health Services Commission for Wales—an arm's-length body—will be the stakeholders that, in future, run the health service.

Your response is depressing, David, and I am disappointed about that. However, I say to you and Peter Black that we have a clear programme laid out. You also demean the managers working in the health authorities and their colleagues who are clinicians, who have the commissioning and managerial experience to deliver a better health service. They want to join me, as leaders in Wales, and they will do that. The plan, as I promised before the debate, will be laid out; the milestones, the timescales and everything that will happen between now and April 2003.

I ask you all to have confidence in the people who are working in the health service in partnership with local government, patients and the voluntary sector, because they are the ones who will deliver this plan.

The Deputy Presiding Officer: The lead spokespeople from each party have asked questions. We now move on to questions from other Members. I have a long list of questions, therefore, can we return to the normal order of things with Members asking short, sharp, succinct questions? I have also had a message to say that some Members are moving their microphones, which have been set for optimum sound. It also says that if Members bang their desks near their microphones it damages them and makes it difficult to hear what is being said. I would

cyflwyno'r strategaeth fframwaith mwyaf radical i Gymru ar gyfer ymdrin â chlefyd y galon. Yr ydych yn dirmygu'r ffaith bod y comisiwn hwnnw wedi cryfhau gwasanaethau. Mae hefyd wedi helpu o ran y materion is-ranbarthol anodd ynghylch gwasanaethau i'r arennau mewn meysydd lle y derbynia pawb fod yn rhaid i fwrdd iechyd lleol weithio mewn partneriaeth gyda'i ymddiriedolaeth a'i gymdogion i gomisiynu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae meysydd sydd y tu hwnt i gylch gwaith y byrddau iechyd lleol ac, wrth gwrs, byddai gan Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru rôl barhaus, wedi'i hatgyfnerthu, wrth ymdrin â'r meysydd hynny. Rhanddeiliaid y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol—sef corff hyd braich—fydd y rhanddeiliaid a fydd yn rhedeg y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol.

Mae eich ymateb yn drist, David, ac yr wyf yn siomedig yn hynny o beth. Fodd bynnag, dywedaf wrthy ch chi a Peter Black fod gennym raglen glir wedi'i nodi. Yr ydych hefyd yn difrio'r rheolwyr sy'n gweithio yn yr awdurdodau iechyd a'u cydweithwyr sy'n glinigwyr a chanddynt y profiad o gomisiynu gwasanaethau a rheoli er mwyn darparu gwasanaeth iechyd gwell. Maent am ymuno â mi, fel arweinwyr yng Nghymru, ac fe wnânt hynny. Caiff manylion y cynllun eu nodi, fel yr addewais cyn y ddadl; y cerrig milltir, yr amserlenni a phopeth a fydd yn digwydd cyn Ebrill 2003.

Gofynnaf ichi oll ymddiried yn y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd mewn partneriaeth â llywodraeth leol, y cleifion a'r sector gwirfoddol, am mai hwy fydd yn cyflwyno'r cynllun hwn.

Y Llywydd: Mae prif siaradwyr pob plaid wedi gofyn cwestiynau. Symudwn ymlaen yn awr at gwestiynau gan yr Aelodau eraill. Mae gennyf restr hir o gwestiynau, felly, allwn ni ddychwelyd at y drefn arferol gyda'r Aelodau yn gofyn cwestiynau byr a chryno? Cefais neges hefyd i ddweud bod rhai Aelodau'n symud eu meicroffonau, sydd wedi'u gosod ar gyfer sicrhau'r sain uchaf. Mae hefyd yn dweud bod yr Aelodau, os ydynt yn taro eu desgiau wrth ymyl eu meicroffonau, yn gwneud difrod iddynt ac yn ei gwneud hi'n anodd clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud.

be grateful if you paid attention to that.

Christine Gwyther: I welcome the statement and the Government's commitment to a Plenary debate. It is important that you made that commitment today. The framework that you mention will open the door for local partnership working. In our own constituencies, we are already seeing excellent partnership working. We hear about work in other constituencies, for example, the work that Chris Jones is doing in the Rhondda. However, I would like you to explain the mechanism for sharing that good practice among the emerging local health groups as they work towards setting up the new local health board framework.

Jane Hutt: That is good work at partnership level. It is also being stimulated by the Assembly through the joint flexibilities grant that I announced recently. The Health Act 1999 provides the flexibility for local authorities and the health service to work together to commission and provide services, which are also part of enabling people to stay at home in the community. I also have appropriate discharge arrangements for them. Hospital partnership is working, as you say, Christine. We must ensure that that good experience is shared. It also means that in terms of developing the capacity of local health groups as they strengthen their role and develop into local health boards, this all-Wales local health board and partnership development team that I have already announced, will be part of its agenda over the coming 18 months as they work toward April 2003. That will be part of the agenda to ensure consistency. That is the whole point of a national strategic framework, which is what we are providing. It is local solutions, local joined-up working, local population needs being recognised within the framework of national guidelines, and an understanding of good practice, and sharing that across Wales.

Geraint Davies: It is obvious that the health service's prime objective is to treat patients.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadw hynny mewn cof.

Christine Gwyther: Croesawaf y datganiad ac ymrwymiad y Llywodraeth i ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Mae'n bwysig eich bod wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw heddiw. Bydd y fframwaith y soniasoch amdano yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol. Yn ein hetholaethau ein hunain, yr ydym eisoes yn gweld enghreifftiau gwych o weithio mewn partneriaeth. Yr ydym yn clywed am waith mewn etholaethau eraill, er enghraifft, y gwaith y mae Chris Jones yn ei wneud yn y Rhondda. Fodd bynnag, hoffwn ichi esbonio'r broses o rannu arfer da ymhlith grwpiau iechyd lleol sy'n datblygu wrth iddynt weithio tuag at sefydlu'r fframwaith byrddau iechyd lleol newydd.

Jane Hutt: Mae hynny'n waith da ar lefel partneriaeth. Mae'n cael ei ysgogi hefyd gan y Cynulliad drwy'r grant hyblygrwydd ar y cyd a gyhoeddais yn ddiweddar. Mae Deddf Iechyd 1999 yn darparu'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gydweithio i gomisiynu a darparu gwasanaethau, sydd hefyd yn rhan o'r broses o alluogi pobl i aros yn eu cartrefi yn y gymuned. Mae gennyf drefniadau priodol iddynt hefyd ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty. Mae partneriaeth ysbyty yn llwyddo, fel y dywedasoch, Christine. Rhaid inni sicrhau y rhennir y profiad da hwnnw. Golyga hefyd, yn nhermau datblygu gallu grwpiau iechyd lleol wrth iddynt atgyfnerthu eu rôl a datblygu yn fyrddau iechyd lleol, y bydd y bwrdd iechyd lleol hwnnw a'r tîm datblygu partneriaeth ar lefel Cymru gyfan a gyhoeddais eisoes, yn rhan o'i agenda yn ystod y 18 mis nesaf wrth iddynt weithio tuag at fis Ebrill 2003. Bydd hynny'n rhan o'r agenda i sicrhau cysondeb. Dyna yw'r prif reswm dros gael fframwaith strategol cenedlaethol, sef yr hyn yr ydym yn ei ddarparu. Mae'n golygu cydnabod atebion lleol, cydweithio cyd-gysylltiedig yn lleol, anghenion y boblogaeth leol o fewn fframwaith canllawiau cenedlaethol, a dealltwriaeth o arfer da, a rhannu hynny ar draws Cymru gyfan.

Geraint Davies: Mae'n amlwg mai prif amcan y gwasanaeth iechyd yw trin cleifion.

However, over recent years the health service has been reorganising itself at great cost and with the consequent loss of great talent. I predict that due to this reorganisation, which has increased from 52 organisations last week to 55 this week, we will be reorganising again in a couple of years. This organisation is—

The Deputy Presiding Officer: Order. I must stop you. You are not here to predict. This is a statement. You are here to ask questions and test the Minister. Will you please ask a question?

Geraint Davies: Can you give us a guarantee that we will not reorganise in a few years' time, will you tackle the iniquitous postcode lottery on treatment, and will you tackle health inequalities, including the services and facilities that are so unequal throughout Wales?

Alun Pugh: Codaf y pwynt hwn o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3. Yn ystod y cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd y bore yma, cyfeiriais at fethiant monopoli Railtrack a breifateiddwyd fel Railtrack John Major. Yn ddiweddarach, galwodd y Gweinidog Railtrack yn 'dog's breakfast', er fy mod yn credu bod hynny'n sarhad ar y diwydiant bwyd anifeiliaid anwes. Llithriad tafod oedd fy sylw; John Major oedd yn gyfrifol am greu Railtrack ond ni ddylwn fod wedi dweud yr hyn a ddywedais. Ymddiheuraf i Alun Cairns am hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn siŵr y derbyniwyd eich ymddiheuriad, a diolchwn ichi amdano.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders

The Minister for Assembly Business: I propose that

the National Assembly, acting under y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o

Standing Order No. 22.25, approves: *dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, yn cymeradwyo:*

1. The Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 23 October 2001; and *1. Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001; ac*

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 30 October 2001. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2001.*

2. The Learning and Skills Act 2000 (Consequential Amendments) (Schools) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 16 October 2001; and *2. Rheoliadau Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Diwygiadau Canlyniadol) (Ysgolion) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Hydref 2001; ac*

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Learning and Skills Act 2000 (Consequential Amendments) (Schools) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 30 October 2001. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Diwygiadau Canlyniadol) (Ysgolion) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2001.*

3. The Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 23 October 2001; and *3. Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001; ac*

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Parent Governor Representatives and Church Representatives (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 30 October 2001. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2001.*

4. The Accounts and Audit (Amendment) (Wales) Regulations 2001 laid in the Table Office on 23 October 2001; and *4. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001; ac*

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Accounts and Audit (Amendment) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 6 November 2001 and the memorandum of corrections laid in the Table Office on 7 November 2001. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001 a'r memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2001.*

5. *The Farm Waste Grant (Nitrate Vulnerable Zones) (Wales) Scheme 2001 laid in the Table Office on 23 October 2001; and*

5. *Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001; ac*

considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Farm Waste Grant (Nitrate Vulnerable Zones) (Wales) Scheme 2001, laid in the Table Office on 30 October 2001 and the memorandum of corrections laid on 5 November 2001. (NDM836)

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2001 a'r memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Tachwedd 2001. (NDM836)

The Deputy Presiding Officer: Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to debate.

Y Dirprwy Lywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, nid yw'r cynnig hwn yn destun dadl.

Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 36, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Graham, William
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Dadl Fer Short Debate

Sgrinio Iechyd yn y Gweithle—Ffordd o Achub Bywydau Workplace Health Screening—A Life Saver

Janice Gregory: Four Assembly Members—Lorraine Barrett, David Melding, Eleanor Burnham and Dai Lloyd—have asked to contribute to the debate if time permits.

It should come as no surprise that I have chosen the issue of health screening in the workplace as the topic of my short debate. As we have seen today, health is an issue about which we all feel passionately. It is an issue on which the National Assembly has the potential to make a huge difference to the lives of the people of Wales.

The Labour-led administration in the Assembly has a strong record of extra investment in the health service in Wales, and that investment is making its presence felt at a local level. In the last few weeks alone, Jane Hutt has announced extra money for local services that will deliver real benefits for the people of my constituency: £2 million to buy an MRI scanner for the Princess of Wales Hospital in Bridgend, over £80,000 to promote closer co-operation between the NHS and the local council, and £100,000 for local surgeries to modernise their premises.

The devolution dividend in the NHS in Wales is obvious. Welsh Labour in the Assembly is delivering on its better health agenda. Despite a strong and redoubled commitment on our part and record investment in the NHS, we still face enormous challenges that will require innovative solutions. That was brought home to me only last week when it was reported that breast cancer has overtaken lung cancer to become the most common form of cancer in the UK.

According to the Imperial Cancer Research

Janice Gregory: Mae pedwar Aelod o'r Cynulliad wedi gofyn am gyfrannu at y ddadl os bydd amser, sef Lorraine Barrett, David Melding, Eleanor Burnham a Dai Lloyd.

Ni ddylai fod yn syndod fy mod wedi dewis sgrinio iechyd yn y gweithle fel testun fy nadl fer. Fel y gwelsom heddiw, mae iechyd yn fater y mae pob un ohonom yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Mae'n fater lle mae'n bosibl i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl Cymru.

Mae gan y weinyddiaeth o dan arweiniad Llafur yn y Cynulliad record dda o fuddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac mae'r buddsoddi hwnnw yn amlwg ar lefel leol. Yn yr ychydig wythnosau diwethaf yn unig, mae Jane Hutt wedi cyhoeddi arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau lleol a fydd yn dwyn manteision gwirioneddol i bobl fy etholaeth: £2 filiwn i brynu sganiwr MRI i Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dros £80,000 i hyrwyddo cydweithrediad agosach rhwng yr NHS a'r cyngor lleol, a £100,000 ar gyfer meddygfeydd lleol i foderneiddio eu hadeiladau.

Mae manteision datganoli yn yr NHS yng Nghymru yn amlwg. Mae Llafur Cymru yn y Cynulliad yn cyflawni ei agenda gwell iechyd. Er gwaethaf ein hymrwymiad cryf a chynyddol a'r buddsoddiad mwyaf erioed yn yr NHS, wynebwn heriau sylweddol o hyd y bydd angen atebion arloesol ar eu cyfer. Fe'm gwnaethpwyd yn ymwybodol o hyn yr wythnos diwethaf pan gyhoeddwyd mai cancer y fron, yn hytrach na chanser yr ysgyfaint, yw'r ffurf mwyaf cyffredin o ganser yn y DU bellach.

Yn ôl yr Imperial Cancer Research Fund a'r

Fund and the Cancer Research Campaign, there are now an estimated 39,500 new cases of breast cancer diagnosed in the UK every year. This morning, figures were announced that showed a 20 per cent increase in ovarian cancer over two decades. Experts predict that the gap between breast and lung cancer will widen still further. They are baffled by the rise in breast and ovarian cancer rates, only part of which can be explained by improvements to screening programmes.

Delaying childbirth, lack of exercise, increasing obesity levels and a poor diet all contribute to the increased incidence of breast cancer. There is no quick-fix solution, but experts say that if women are breast aware and go for screening, it is more likely that the disease will be detected early on, when there is a 90 per cent chance of survival.

While we say that lifestyle changes are causing an increase in breast cancer, those changes could also be acting as a barrier to the detection and cure of this disease and others. Contemporary work patterns may prevent many workers from not only visiting a doctor, but also from taking regular exercise and eating a balanced diet.

This is not just a problem for the individual. Evidence suggests that businesses have serious cause for concern about health in terms of absenteeism and productivity. The Department of Health estimates that every year about 106 million working days are lost in the UK due to back pain, at a cost to the economy of over £5 billion. Ninety million working days are lost as a result of stress-related absence. Coronary heart disease—often attributable to smoking, poor diet, high cholesterol and a lack of fitness—is responsible for the loss of 35 million working days per year, at a cost of over £3.5 billion and 10.5 million days are lost per year in Wales alone, at an estimated cost to employers of £500 million.

These are problems that will require more

Ymgyrch Ymchwil i Ganser, amcangyfrifir erbyn hyn bod 39,500 o achosion newydd o ganser y fron yn cael eu canfod yn y DU bob blwyddyn. Y bore yma, cyhoeddwyd ffigurau sy'n dangos cynnydd o 20 y cant mewn achosion o ganser yr ofariau dros ddau ddegawd. Mae arbenigwyr yn rhagweld y bydd y bwllch rhwng canser y fron a chanser yr ysgyfaint yn cynyddu eto. Mae'r cynnydd yng nghyfraddau canser y fron a chanser yr ofariau yn ddirgelwch iddynt, a dim ond rhan o'r cynnydd y mae'r gwellhad mewn rhaglenni sgrinio yn ei egluro.

Mae oedi cyn cael baban, diffyg ymarfer corff, lefelau gordewdra cynyddol a deiet gwael oll yn cyfrannu at y cynnydd mewn achosion o ganser y fron. Nid oes ateb cyflym, ond dywed yr arbenigwyr ei bod yn fwy tebygol y caiff yr afiechyd ei ganfod yn gynnar, pan fo'r cyfle i oroesi yn 90 y cant, os yw merched yn ymwybodol o ganser y fron ac yn mynd i gael eu sgrinio.

Er ein bod yn dweud bod y newidiadau yn ein ffordd o fyw yn achosi cynnydd yn nifer yr achosion o ganser y fron, gallai'r newidiadau hynny fod yn gweithredu hefyd fel rhwystr rhag canfod a gwella'r afiechyd hwn ac afiechydon eraill. Gall patrymau gwaith cyfoes nid yn unig atal llawer o weithwyr rhag ymweld â meddyg, ond hefyd rhag gwneud ymarfer corff rheolaidd a bwyta deiet cytbwys.

Nid problem i'r unigolyn yn unig yw hyn. Awgryma tystiolaeth fod gan fusnesau reswm difrifol dros bryderu ynghylch iechyd o ran absenoldeb a chynhyrchiant. Amcangyfrifa'r Adran Iechyd y collir tua 106 o filiynau o ddyddiau gwaith bob blwyddyn yn y DU oherwydd poen cefn, ar gost o fwy na £5 biliwn i'r economi. Collir 90 miliwn o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb sy'n ymwneud â straen. Mae afiechyd y galon—y gellir ei briodoli yn aml i ysmegu, deiet gwael, colesterol uchel a diffyg ffitrwydd—yn gyfrifol am golli 35 miliwn o ddyddiau gwaith y flwyddyn, ar gost o fwy na £3.5 biliwn a cholli 10.5 miliwn o ddyddiau y flwyddyn yng Nghymru yn unig, ar gost amcangyfrifedig i gyflogwyr o £500 miliwn.

Mae'r rhain yn broblemau a fydd yn galw am

innovative solutions, tackling bad health at its root causes, and a proactive rather than reactive approach. The benefits of health promotion in the workplace are obvious. It can lower absenteeism, reduce the legal costs connected with health and safety issues, contribute to improved performance, improve staff well being and morale and create a positive image for the business.

For a small business—where the real cost of absence can be greater—it might mean the difference between completing an order on time and keeping that business, as well as the ability to provide a good service for the customer. A reliable, happy and healthy workforce can mean the difference between make or break.

11:25 a.m.

I used the example of breast cancer, but the same principles of innovation in health could equally apply to testicular cancer, prostate cancer and blood pressure. I would like to explore further the innovations, proactivity and the solutions, and draw attention to some examples of best practice in the public and private sectors. I begin with a local example that has a direct bearing on many workers in my constituency, in 1996, Bridgend County Borough Council established a workplace health promotion team, which included trade union representation and was chaired by the human resources officer. Following a council staff survey, policy issues were developed. These included a no smoking policy, a stress at work strategy, a nutrition policy, concessions for staff to use leisure facilities, an alcohol and substance misuse policy, a manual handling strategy, a sun safety awareness initiative and a joint venture with Breast Test Wales to provide all female employees with breast and cervical screening awareness sessions.

In 1998, the council became the first authority in Wales to be awarded the gold standard for workplace health promotion by Health Promotion Wales. Future targets now include proposals for the launch of a well-man clinic in partnership with Tenovus for all

atebion mwy arloesol, am fynd i'r afael â gwraidd achosion iechyd gwael ac am fabwysiadu ymagwedd ragweithiol yn hytrach nag adweithiol. Mae manteision hybu iechyd yn y gweithle yn amlwg. Gall ostwng cyfraddau absenoldeb, lleihau'r costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch, cyfrannu at well perfformiad, gwella lles a morâl staff a chreu delwedd gadarnhaol i'r busnes.

I fusnes bach—lle y gall gwir gost absenoldeb fod yn uwch—gallai olygu'r gwahaniaeth rhwng cwblhau archeb mewn pryd a chadw'r busnes hwnnw, yn ogystal â'r gallu i ddarparu gwasanaeth da i'r cwsmer. Gall gweithlu dibynadwy, bodlon ac iach olygu'r gwahaniaeth rhwng methu a llwyddo.

Defnyddiais yr enghraifft o ganser y fron, ond gellid cymhwyso'r un egwyddorion o arloesedd mewn iechyd i ganser y ceilliau, canser y brostad a phwysedd gwaed. Hoffwn egluro ymhellach y dulliau arloesol, y rhagweithgarwch a'r atebion, gan dynnu sylw at rai enghreifftiau o arfer da yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuaf gydag enghraifft leol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â llawer o weithwyr yn fy etholaeth. Yn 1996, sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dîm hybu iechyd yn y gweithle. Yr oedd y tîm yn cynnwys cynrychiolaeth o undebau llafur a'r swyddog adnoddau dynol oedd yn cadeirio. Yn dilyn arolwg o staff y cyngor, datblygwyd materion polisi. Ymhlith y rhain yr oedd polisi dim ysmegu, strategaeth straen yn y gwaith, polisi maeth, consesiynau i staff i ddefnyddio cyfleusterau hamdden, polisi camddefnyddio alcohol a sylweddau, strategaeth trin â llaw, menter ymwybyddiaeth diogelu rhag yr haul a menter ar y cyd â Bron-Brawf Cymru, i drefnu sesiynau ymwybyddiaeth sgrinio'r fron a'r serfics i bob gweithwraig.

Yn 1998, enillodd y cyngor y safon aur am hybu iechyd yn y gweithle gan Hybu Iechyd Cymru. Ef oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae'r targedau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cynigion i lansio clinig dynion iach mewn partneriaeth â

male council employees, reviewing the smoking policy at work and an evaluation of employees' perceptions of workplace health promotion initiatives. The council has been forward-thinking and visionary in this regard, with the aims of increasing motivation and output and in the philosophy that prevention is better than cure.

The Ford Motor Company engine plant is another local example of an employer that has taken the initiative. I am glad to see one of the area's major employers, is setting a positive example for others to follow. As well as promoting the benefits of a good diet by means of a healthy eating bar, the company, working in consultation and negotiation with its workers' trade unions, offers a range of in-house and external leisure facilities for its workforce. The plant's multi-gym has proved successful and is well used by the workers. The committee that oversees the running of the gym is an excellent example of how employees can work in co-operation with their employers to take a positive lead in workplace health promotion.

Similarly, the employee development and assistance programme at the plant provides leisure opportunities in conjunction with the local unitary authority. A committee consisting of representatives from management and the unions is responsible for the managing and budgeting of the programme. Over 50 per cent of the workforce has taken up the scheme and a part-time administrator and a part-time local education adviser are employed.

This is innovation at work, but it is just a beginning. There is much more that we can do. It is now over 50 years since my mother was screened for tuberculosis by x-ray in her workplace. A cavity was discovered in her lung but, fortunately, it was early enough for her to be treated successfully. Countless people owe their lives to such screening programmes and we should not forget their effectiveness. That is why it is my strong conviction that screening in the workplace should be expanded.

I have already mentioned breast screening

Tenovus i bob un o weithwyr gwrywaidd y cyngor, adolygu'r polisi ysmegu yn y gwaith a gwerthuso barn cyflogeion am fentrau hybu iechyd yn y gweithle. Bu'r cyngor yn flaengar a gweledigaethol yn hyn o beth, a'r nodau oedd cynyddu cymhelliant a chynnyrch ac arddel yr athroniaeth ei bod yn well rhwystro'r clwyf na'i wella.

Mae gwaith peiriannau Cwmni Moduron Ford yn enghraifft leol arall o gyflogwr sydd wedi arloesi. Yr wyf yn falch o weld bod un o brif gyflogwyr yr ardal yn gosod esiampl gadarnhaol i eraill ei dilyn. Yn ogystal â hybu manteision deiet da drwy gyfrwng bar bwyta'n iach, cynigia'r cwmni, drwy ymgynghori a negodi ag undebau llafur ei weithwyr, ystod o gyfleusterau hamdden mewnol ac allanol ar gyfer ei weithlu. Mae amlgampfa'r gwaith yn llwyddiant ac fe'i defnyddir gan lawer o'r gweithwyr. Mae'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y gampfa yn enghraifft ragorol o sut y gall cyflogeion gydweithio â'u cyflogwyr i arwain y blaen ym maes hybu iechyd yn y gweithle.

Yn yr un modd, mae'r rhaglen datblygu a chymorth i gyflogeion yn y gwaith yn darparu cyfleoedd hamdden mewn cydweithrediad â'r awdurdod unedol lleol. Mae pwyllgor o gynrychiolwyr o blith y rheolwyr a'r undebau yn gyfrifol am reoli a chyllidebu'r rhaglen. Mae dros 50 y cant o'r gweithlu wedi ymuno â'r cynllun a chyflogir gweinyddwr rhan amser ac ymgynghorydd addysg lleol rhan amser.

Dyma arloesedd ar waith, ond megis dechrau yw hyn. Mae llawer mwy y gallwn ei wneud. Mae dros 50 mlynedd bellach ers i'm mam gael ei sgrinio ar gyfer y ddarfededigaeth drwy gyfrwng peiriant pelydr-x yn ei gweithle. Darganfuwyd ceudod yn ei hysgyfaint, ond, yn ffodus, yr oedd yn ddigon cynnar iddi gael ei thrin yn llwyddiannus. Mae pobl ddirifedi yn ddyledus am eu bywydau i raglenni sgrinio o'r fath ac ni ddylem anghofio eu heffeithiolrwydd. Dyna pam fy mod yn argyhoeddedig y dylid ehangu ar y cyfleoedd sgrinio yn y gweithle.

Soniais eisoes am sgrinio'r fron a manteisiaf

and I take this opportunity to draw attention to the campaign for breast screening in the workplace organised by the Transport and General Workers Union. The union has a strong track record of care and concern for the health and wellbeing of its members and I am sure it has your support, Jane. Breast cancer is just one example of a disease where early detection can be crucial but screening programmes could also be applied to a range of health issues. There may be some initial administrative hurdles in co-ordinating an extension of workplace screening, but there will be significant consequential cost savings to the health service and to industry as a result of a reduction in sickness and absences. I am aware of this administration's commitment to, and encouragement of, preventative medicine. I am concerned, however, that the Assembly, as an employer responsible for thousands of staff, should give a high priority to workplace screening and health promotion among its own employees.

Workplace screening and health promotion is a life saver. That is why I hope that we will be at the forefront of driving forward a positive approach across all sectors, working with employers of all shapes and sizes for the better health of the people of Wales.

Lorraine Barrett: I thank Janice for raising this important issue today. I join you in congratulating Jane Hutt on delivering on our better health agenda in Wales. Employers have a big part to play in improving health in the workplace and I am aware of the service provided by the TGWU, particularly in Cardiff. It not only benefits employees, but, as you said, Janice, a happy, healthy and productive workforce is good for business. We have already seen how screening for cervical cancer has made a tremendous impact on survival rates for women. However, I agree that we should all be concerned about today's figures regarding ovarian cancer in particular. I hope that the innovative solutions that Janice mentioned are extended to that type of cancer. I join Janice in calling on the Assembly in all its buildings and offices throughout the whole of Wales to become that good employer and provide workplace screening for our staff.

ar y cyfle hwn i dynnu sylw at yr ymgyrch i sgrinio'r fron yn y gweithle a drefnwyd gan Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol. Mae gan yr undeb record dda o ofal a phryder am iechyd a lles ei aelodau ac yr wyf yn sicr y cefnogwch hyn, Jane. Dim ond un enghraifft yw canser y fron o afiechyd y mae'n hanfodol iddo gael ei ddarganfod yn gynnar ond gellid cymhwysu rhaglenni sgrinio hefyd i ystod o faterion iechyd. Efallai y bydd rhywfaint o rwystrau gweinyddol ar y cychwyn wrth gydlynw'r gwaith o ehangu cyfleoedd sgrinio yn y gweithle, ond y canlyniad fydd arbedion cost sylweddol i'r gwasanaeth iechyd ac i ddiwydiant yn sgîl lleihad mewn achosion o salwch ac absenoldeb. Yr wyf yn ymwybodol bod y weinyddiaeth hon wedi ymrwmo i hybu meddyginiaeth ataliol a'i hannog. Pryderaf, fodd bynnag, y dylai'r Cynulliad, fel cyflogwr sy'n gyfrifol am filoedd o aelodau o staff, roi blaenoriaeth uchel i sgrinio yn y gweithle a hybu iechyd ymhlith ei gyflogeion ei hun.

Mae sgrinio yn y gweithle a hybu iechyd yn achub bywydau. Dyna pam y byddwn, gobeithiaf, ar flaen y gad wrth hybu ymagwedd gadarnhaol ar draws pob sector, gan weithio gyda chyflogwyr o bob lliw a llun er iechyd gwell pobl Cymru.

Lorraine Barrett: Diolch i Janice am godi'r mater pwysig hwn heddiw. Ymunaf â chi i longyfarch Jane Hutt ar gyflawni ein hagenda gwell iechyd yng Nghymru. Mae gan gyflogwyr ran fawr i'w chwarae wrth wella iechyd yn y gweithle ac yr wyf yn ymwybodol o'r gwasanaeth a ddarperir gan Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, yn arbennig yng Nghaerdydd. Nid cyflogeion yn unig sy'n elwa ar hyn, ond fel y dywedaso, Janice, mae gweithle bodlon, iach a chynhyrchiol yn dda i fusnes. Yr ydym eisoes wedi gweld yr effaith aruthrol a gafodd sgrinio am ganser y serffics ar gyfraddau goroesi i ferched. Fodd bynnag, cytunaf y dylai pob un ohonom ofidio ynghylch ffigurau heddiw o ran canser yr ofariau yn arbennig. Gobeithiaf y caiff yr atebion arloesol y soniodd Janice amdanynt eu hymestyn i'r math hwnnw o ganser. Ymunaf â Janice i alw ar y Cynulliad i fod yn gyflogwr da ymhob un o'i adeiladau a'i swyddfeydd ledled Cymru a darparu sgrinio

yn y gweithle i'n staff.

David Melding: I add my thanks to Janice Gregory for raising this issue and for lucidly outlining the benefits of increasing workplace health screening. Two of the most significant chronic conditions that we seek to manage are high blood pressure or hypertension, and diabetes. Both conditions could be successfully screened for in the workplace. Many people avoid having their blood pressure regularly tested. If they were encouraged to do so in the workplace and did not have to go into the surgery to receive a check-up, that may help them to see how normal it is to have their blood pressure checked and, if it is raised, to receive effective treatment. Blood pressure can be checked simply these days with accurate electronic devices and it is one way in which we could improve health. Early detection means getting treatment and avoiding complications, which leads to much better health in later life.

David Melding: Ychwanegaf fy niolch i Janice Gregory am godi'r mater hwn ac am amlinellu manteision cynyddu sgrinio iechyd yn y gweithle yn glir. Dau o'r affiechydon cronig mwyaf arwyddocaol y ceisiwn eu rheoli yw pwysedd gwaed uchel a chlefyd siwgwr. Gellid sgrinio'n llwyddiannus ar gyfer y ddau affiechyd yn y gweithle. Mae llawer o bobl yn osgoi mynd i wirio eu pwysedd gwaed yn rheolaidd. Pe' u hanogid i wneud hynny yn y gweithle a phe na baent yn gorfod mynd i'r feddygfa i gael archwiliad, efallai y byddai hynny'n eu helpu i weld pa mor normal ydyw i wirio eich pwysedd gwaed ac, os yw'n uchel, i gael triniaeth effeithiol. Mater syml yw gwirio pwysedd gwaed y dyddiau hyn gyda dyfeisiau electronig cywir ac mae'n un ffordd o wella iechyd. Mae ei ddarganfod yn gynnar yn golygu cael triniaeth ac osgoi cymhlethdodau, sy'n arwain at well iechyd o lawer yn ddiweddarach mewn bywyd.

Eleanor Burnham: I also thank Janice. The Assembly is making strides in trying to be the best possible employer. Health in the workplace is vital and employers, including Assembly Members, should address it most earnestly. Employees can suffer from stress and even nervous breakdowns created by bad working practices such as overload, constant pressure, perhaps even bullying. These factors can result in employees feeling that they have to work through lunch breaks, stay late and come in early. Members must be aware that we are employers in our own right and should look after our staff. The factors mentioned can mean that people do not look after themselves, do not take breaks during the day or eat properly. Stress leads to the neglect of other areas of people's lives and their health. A constant complaint of many people is that they are overly tired, work too late or do not have time to take exercise. Every employer should consider the mental wellbeing of employees.

Eleanor Burnham: Diolchaf hefyd i Janice. Cymer y Cynulliad gamau breision i ddatblygu i fod yn gyflogwr a ystyrir fel y cyflogwr gorau posibl. Mae iechyd yn y gweithle yn holl bwysig a dylai cyflogwyr, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, ymdrin ag ef o ddifrif. Gall cyflogeion ddiodeff o straen a hyd yn oed gwaeledd nerfol yn sgil arferion gwaith gwael fel gorlwytho, pwysau cyson, hyd yn oed bwlio. Gall y ffactorau hyn olygu bod cyflogeion yn teimlo bod yn rhaid iddynt weithio drwy'r awr ginio, aros yn hwyr a chyrraedd yn gynnar. Rhaid i'r Aelodau fod yn ymwybodol ein bod yn gyflogwyr yn ein rhinwedd ein hunain ac y dylem ofalu am ein staff. Gall y ffactorau a grybwyllwyd olygu nad yw pobl yn gofalu am eu hunain, nad ydynt yn cymryd seibiant o'r gwaith yn ystod y dydd nac yn bwyta'n iawn. Mae straen yn arwain at esgeuluso meysydd eraill o fywydau pobl a'u hiechyd. Un gŵyn gyson yw bod llawer o bobl yn gorflino, yn gweithio'n rhy hwyr neu ddim yn trefnu i wneud ymarfer corff. Dylai pob cyflogwr ystyried lles meddwl cyflogeion.

Healthy lifestyles should be promoted in every workplace through such means as healthy eating menus in staff restaurants,

Dylid hyrwyddo ffordd iach o fyw ymhob gweithle drwy gyfrwng pethau fel bwydlenni bwyta'n iach yn y ffretur, mentrau hamdden

leisure initiatives and so on. Employers should perhaps ensure that physiotherapists carry out risk assessments on employees at their workstations to ensure that they do not suffer from stress-related illnesses or repetitive stress syndrome. The Chartered Society of Physiotherapy advises that you should not sit in a fixed position at your workstation for more than 20 minutes. How many workers and employers know that?

David Lloyd: As usual, I declare an interest as a GP. Thank you, Janice, for raising this important topic. Workplace screening and the related issue of an occupational health service for staff, is about how employers value their staff. As regards David's point about blood pressure checks, it would depend during what time of your working day it was checked. [*Laughter.*] You may have a misleading reading after this morning. However, in these days of overly stressed staff, low morale and high sickness levels, this is about how employers value their staff. It is about workplace screening and also the development of an occupational health service.

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): Thank you, Janice, for raising this important subject in the National Assembly and thank you, Lorraine, David, Eleanor and Dai, for your contributions. The news from the Cancer Research Campaign that breast cancer has now overtaken lung cancer as the most common form of cancer in the UK is worrying. I know that that prompted Janice to choose this topic for her short debate. It highlights the importance of encouraging women to go for screening, particularly when they are invited to do so by Breast Test Wales, which has such an important role to play in our community. With early detection, there is around a 90 per cent chance of survival. We must consider what role the workforce should and can play in this. Employers have an important role to play in providing information about health and screening opportunities. Many employers provide information to their workforces on health issues, including the benefits of health and lifestyle screening.

ac yn y blaen. Dylai cyflogwyr sicrhau efallai bod ffisiotherapyddion yn cynnal asesiadau risg ar gyflogwyr wrth eu gweithfannau er mwyn sicrhau nad ydynt yn dioddef o afiechydon sy'n gysylltiedig â straen neu syndrom straen ailadroddol. Mae'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yn dweud na ddylech eistedd yn llonydd wrth eich gweithfan am fwy nag 20 munud. Faint o weithwyr a chyflogwyr sy'n gwybod hynny?

David Lloyd: Fel arfer, datganaf fuddiant fel meddyg teulu. Diolch i chi, Janice, am godi'r pwnc pwysig hwn. Mae a wnelo sgrinio yn y gweithle a mater cysylltiedig gwasanaeth iechyd galwedigaethol i staff â'r ffordd y mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi eu staff. O ran pwynt David ynghylch gwirio pwysedd gwaed, byddai'n dibynnu ar ba adeg o'r diwrnod gwaith y câi ei wirio. [*Chwerthin.*] Efallai y cewch ddarllenid camarweiniol ar ôl y bore yma. Fodd bynnag, yn y dyddiau hyn pan fo staff o dan ormod o straen, pan fo eu morâl yn isel a lefelau salwch yn uchel, mae a wnelo â'r ffordd y mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi eu staff. Mae a wnelo â sgrinio yn y gweithle ac â datblygu gwasanaeth iechyd galwedigaethol hefyd.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Diolch i chi, Janice, am godi'r pwnc pwysig hwn yn y Cynulliad Cenedlaethol a diolch i chi, Lorraine, David, Eleanor a Dai am eich cyfraniadau. Mae'r newyddion o'r Ymgyrch Ymchwil i Ganser bod mwy o achosion o ganser y fron na chanser yr ysgyfaint ac mai dyma'r ffurf mwyaf cyffredin ar ganser yn y DU yn peri gofid. Gwn fod hyn wedi ysgogi Janice i ddewis y pwnc hwn ar gyfer ei dadl fer. Mae'n pwysleisio pa mor bwysig ydyw i annog merched i fynd i gael eu sgrinio, yn arbennig pan y'u gwahoddir i wneud hynny gan Bron-Brawf Cymru, sydd â rôl mor bwysig i'w chwarae yn ein cymuned. Drwy ei ganfod yn gynnar, mae'r gobaith y gwnewch oroesi tua 90 y cant. Rhaid inni ystyried pa rôl y dylai ac y gallai'r gweithle ei chwarae yn hyn o beth. Mae gan gyflogwyr rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd iechyd a sgrinio. Darpara llawer o gyflogwyr wybodaeth i'w gweithluoedd am faterion iechyd, gan gynnwys manteision sgrinio ar

gyfer iechyd a ffordd o fyw.

11:35 a.m.

We published an action plan last year promoting health and wellbeing, which acknowledges that the workforce is an important setting for action to improve health. It calls for employers to achieve the Assembly's Corporate Health Standard for workplace health promotion and for public sector bodies, including the Assembly, to act as exemplars for other employers. We probably have a long way to go on that. Some colleagues might remember that when we launched the coronary heart disease framework, colleagues came here from the national heart organisation. They conducted a survey of our staff and us. I must say that we are quite a hard living lot according to the results that I have seen. However, we need to take this issue on board in the frenetic nature of the Assembly and what we expect of our staff. Perhaps that is a matter for the Health and Social Services Committee, I am not sure, but we should take it forward.

It is also of key importance that we recognise that the Assembly's Corporate Health Standard is the quality mark for workplace health in Wales. That was relaunched, bringing in CBI Wales and Wales TUC, and it has been endorsed by the Health and Safety Executive. The corporate standard encourages employers to take a holistic approach to workplace health by developing policies, services and information to promote better health and wellbeing. That includes stress, smoking, diet, nutrition, alcohol and substance misuse, as well as other problems such as muscular skeletal problems, which are risks that arise in the workplace. We must raise awareness of men's as well as women's health issues, and improve understanding of the effect of lifestyle on health.

I am pleased, Janice, that you mentioned examples of health awareness programmes from Bridgend County Borough Council and the EDAP programme in Ford, which are examples public and private sectors in your constituency. It is the sort of thing that we

Cyhoeddasom gynllun gweithredu y llynedd yn hyrwyddo iechyd a lles, sy'n cydnabod bod y gweithlu yn lleoliad pwysig i weithredu er mwyn gwella iechyd. Geilw ar gyflogwyr i gyrraedd Safon Iechyd Gorfforaethol y Cynulliad i hybu iechyd yn y gweithle ac i gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynulliad, fod yn enghreifftiau i gyflogwyr eraill. Mae'n siŵr bod gennym lawer o ffordd i fynd eto. Efallai fod rhai o'r cyd-Aelodau yn cofio i gyfeillion o sefydliad cenedlaethol y galon ddod yma, pan lansiwyd fframwaith afiechyd y galon gennym. Cynhaliwyd arolwg ganddynt o'n haelodau staff ac ohonom ni. Rhaid imi ddweud ein bod yn griw sy'n byw yn fras yn ôl y canlyniadau a welais. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried y mater hwn yng nghydestun natur wyllt y Cynulliad a'r hyn a ddisgwylwn gan ein staff. Efallai fod hyn yn fater i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid wyf yn siŵr, ond dylem weithredu arno.

Mae'n holl bwysig hefyd ein bod yn cydnabod mai Safon Iechyd Gorfforaethol y Cynulliad yw'r nod ansawdd ar gyfer iechyd yn y gweithle yng Nghymru. Ail-lansiwyd hynny, gan gynnwys CBI Cymru a TUC Cymru, ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r safon gorfforaethol yn annog cyflogwyr i fabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at iechyd yn y gweithle drwy ddatblygu polisiau, gwasanaethau a gwybodaeth i hyrwyddo gwell iechyd a lles. Mae hynny'n cynnwys straen, ysmegu, deiet, maeth, a chamddefnyddio alcohol a sylweddau, yn ogystal â phroblemau eraill fel problemau ysgerbydol cyhyrog, sef risgiau sy'n codi yn y gweithle. Rhaid inni godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd dynion yn ogystal â rhai merched, a gwella'n dealltwriaeth o effaith ffordd o fyw ar iechyd.

Yr wyf yn falch, Janice, ichi sôn am enghreifftiau o raglenni ymwybyddiaeth o iechyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhaglen EDAP yn Ford, sydd yn enghreifftiau o sectorau cyhoeddus a phreifat yn eich etholaeth. Dyma'r math o

can endorse as constituency Members and perhaps give a bit more credence to than we do at present to acknowledge what is going on. It is also important to show how Breast Test Wales links to this. Breast Test Wales has three static centres. Its mobile units visit 90 locations across Wales. I provided additional funding last year for Breast Test Wales for equipment, facilities and manpower to further improve the quality of the service. It is of key importance that employers should enable people to use the services of Breast Test Wales. That is happening.

If we consider the employment pattern in Wales, it is predominantly made up of small and medium-sized enterprises. Some 75 per cent of Welsh employers employ fewer than five members of staff. They would have to make use of the services in their community, so the best course of action in terms of detecting breast cancer is to increase the numbers of working women who attend screening, and to enable them to attend Breast Test Wales. I am also pleased that we are now incorporating awareness of workplace health into our national economic development strategy. We should not divorce the two. On the barriers to working and economic inactivity in Wales, much of it is due to ill-health and chronic ill-health. David, Dai, Lorraine, Eleanor and others have considered how we could use the workplace as a key to detecting ill-health and screening. However, we must also recognise the opportunities for smaller organisations. They must also be recognised as part of the solution in terms of reaching people.

We pass on an important message from the Assembly. We must consider our own practice and purposes. We must recognise that there are opportunities across Wales, which we perhaps do not join up enough, in terms of workplace health screening opportunities and raising awareness. It is important, Janice, that you have drawn attention to other findings, such as the figures released today on ovarian cancer. That was of great concern in terms of how we can detect ovarian cancer. We are also concerned about the increase in breast cancer. I am delighted

beth y gallwn ei gymeradwyo fel Aelodau etholaethau ac ymddiried ychydig yn fwy ynddynt nag a wnawn ar hyn o bryd er mwyn cydnabod yr hyn sy'n digwydd. Mae'n bwysig dangos hefyd sut y mae Bron-Brawf Cymru yn cysylltu â hyn. Mae gan Bron-Brawf Cymru dair canolfan sefydlog. Mae ei hunedau symudol yn ymweld â 90 o leoliadau ledled Cymru. Darperais arian ychwanegol y llynedd i Bron-Brawf Cymru ar gyfer offer, cyfleusterau a gweithwyr i wella ansawdd y gwasanaeth ymhellach. Mae'n holl bwysig bod cyflogwyr yn galluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau Bron-Brawf Cymru. Mae hynny'n digwydd.

Os ystyriwn y patrwm cyflogaeth yng Nghymru, mae'n cynnwys mentrau bach a chanolig eu maint yn bennaf. Mae tua 75 y cant o gyflogwyr Cymru yn cyflogi llai na phum aelod o staff. Byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau yn eu cymuned, felly y ffordd orau o weithredu o ran darganfod canser y fron yw drwy sicrhau bod mwy o ferched cyflogedig yn mynd i gael eu sgrinio, a'u galluogi i fynd i Bron-Brawf Cymru. Yr wyf yn falch hefyd ein bod bellach yn ymgorffori ymwybyddiaeth o iechyd yn y gweithle yn ein strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Ni ddylem wahanu'r ddau beth. O ran y rhwystrau rhag gweithio ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru, mae llawer ohonynt o ganlyniad i afiechyd ac afiechyd cronig. Mae David, Dai, Lorraine, Eleanor ac eraill wedi ystyried sut y gallem ddefnyddio'r gweithle fel allwedd i ddarganfod afiechyd on a sgrinio. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod y cyfleoedd i sefydliadau llai hefyd. Rhaid iddynt gael eu cydnabod fel rhan o'r ateb o ran cyrraedd pobl.

Trosglwyddwn neges bwysig gan y Cynulliad. Rhaid inni ystyried ein harfer a'n dibenion ni ein hunain. Rhaid inni gydnabod bod cyfleoedd ledled Cymru, nad ydym yn eu dwyn ynghyd yn ddigon aml efallai, o ran cyfleoedd sgrinio iechyd yn y gweithle a chodi ymwybyddiaeth. Mae'n bwysig ichi dynnu sylw at ganfyddiadau eraill, Janice, fel y ffigurau a ryddhawyd heddiw ar ganser yr ofariau. Mae'r ffordd y gallwn ganfod canser yr ofariau yn achosi pryder mawr. Pryderwn hefyd ynghylch yr achosion o ganser y fron sy'n cynyddu. Yr wyf yn falch iawn bod yr

that the cancer research campaign is investing more money in Wales. Yesterday I was able to launch the new renewed Wales cancer trials network, a big conference that was attended by all the cancer specialists in Wales, who recognise that clinical trials are an important part of research, and that if people come forward for clinical trials it will help reach a solution. It can also provide a supportive environment for people in clinical trials. This is being pioneered in Wales. We are also developing the three managed clinical cancer networks, where research, treatment and prevention are part of the minimum standards of our cancer services programme.

Janice has ably brought the impact of the workplace into our strategy for improving health and wellbeing in Wales, particularly focusing on the dreaded scourge of too many women's and their families' lives—breast cancer.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

ymgyrch ymchwil i ganser yn buddsoddi mwy o arian yng Nghymru. Ddoe, lansiais y rhwydwaith treialon cancer o'r newydd i Gymru, cynhadledd fawr a fynychwyd gan bob arbenigwr cancer yng Nghymru, sy'n cydnabod bod treialon clinigol yn rhan bwysig o ymchwil, ac os bydd pobl yn barod i gymryd rhan yn y treialon clinigol hyn bydd yn helpu i ddod o hyd i ateb. Gall ddarparu amgylchedd cefnogol hefyd i bobl sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol. Mae hyn yn cael ei arloesi yng Nghymru. Yr ydym hefyd yn datblygu'r tri rhwydwaith cancer clinigol a reolir, lle mae ymchwilio, trin ac atal yn rhan o isafswm safonau ein rhaglen gwasanaethau cancer.

Mae Janice wedi cynnwys effaith y gweithle yn fedrus yn ein strategaeth ar gyfer gwella iechyd a lles yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y pla ofnadwy ar fywydau gormod o lawer o ferched a'u teuluoedd—canser y fron.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.m.

The session ended at 11.40 a.m.